YR YMOFYNYDD.

RHIF 63.] TACHWEDD, 1852. [CYF. V.

"PROFWCH BOB PÈTH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Mewn cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

IOLO MORGANWG.

(*Parhad o Tudal* 226.)

YN y Llythyr at Mr. D. Williams, dyddiedig Ionawr 16, 1810, dywed Iolo—

"Yr wyf wedi ysgrifenu rhan fawr o *Hanes fy Mywyd.* Ymdrechaf ei wneud yn gyfrwng y fath sylwadau ac yr wyf yn alluog i'w gwneud ar lenyddiaeth Cymru, hen a ddiweddar: ar yr Iaith Gymraeg, a'i gwahanol ganghenieithoedd *(dialects)*; ar Hanesyddiaeth y Cymry, eu Moesau, eu Dull o Fyw, ac amrywiol hynafiaethau poblogaidd, &c., &c. Yr wyf yn ymdrechu cymmaint a allaf, i ochel myfi-aeth dibwys—peth anhawdd i'w wneud yn brydwedd gan un yn traethu ei hanes bersonol. Yr wyf wedi meddwl weithiau i'w ysgrifenu fel Iwl Caisar, yn y trydydd berson: ni chyst hyn lawer o drafferth imi ym mharatoad argraff-ysgrif. Fy mhrif ddyben yn y gwaith hwn, fydd amlygu Llenyddiaeth, Hanes, a Moesau y genedl Gymraeg: y testynau hyn yw y rhai a'i gwnant yn bwysfawr, ac nid yn unig dygwyddiadau bywyd dyn mor guddiedig a distadl ac yr wyf fi. Byddai yn llawenydd gennyf osod fy ysgrif, neu rhyw rannau o honi, dan sylw rhai o'm cyfeillion llenorol yn Llundain, ym mhlith pa rai rhaid imi enwi Mr. David Williams." *(Cambrian Register,* iii. 372—4, 375—6*),* Yn yr un llythyr y mae yn dweud ei fod wedi cwblhau traethawd bychan ar Fydryddiaeth Cymraeg: barnaf mai *Cyfrinach y Beirdd* a feddylia: ond nid wyf yn sicr, gan fod y bardd yn sôn am dano fel gwaith gwreiddiol, yr hyn nid oedd y Cyfrinach.

Yr awgrym nesaf o hanfodiad y bardd oedd ymddangosiad y gyfrol gyntaf o'i Salmau, yn 1812, dan yr enw,

SALMAU YR EGLWYS YN YR ANIALWCH.

Argraffwyd y gwaith ym Merthyr Tydfil; gan William Williams, dros yr awdwr; a chan fod y gyfrol gyntaf yn anhawdd i'w chael, a bod rhai pethau teilwng o sylw yn y rhagymadrodd, dyfynaf ef yn gyflawn :—

"RHAGYMADRODD.

"Yng nghylch y flwyddyn 1794, fe'm annogwyd gan gyfeillion dysgedig (yn eu plith y Dr. Gregory Capelwr Esgob Llan Daf, y Dr. Kippis, y Parchedig Theophilus Lindsey, ag eraill, yn gystal yn yr Eglwys sefydledig, ag ym mhlith yr Ymneillduwyr,) i ysgrifenu rhyw faint o Salmau neu Hymnau Cymreig, o'r cyfryw ag y gallai Gristnogion diragfarn, o bob enw a phlaid, ymuno ynddynt i foliannu'r un Duw a Thad oll. Parch i'r achos yn gyntaf, ac yn ail, parch i'm annogwyr dysgedig, ag eglurnod am eu hymarweddiad Cristnogol, a'm cynhyrfodd i gymmeryd y gorchwyl mewn llaw, a bu'n ddiddanwch nid bychan immi dros amryw flynyddau digon trallodus gan wasg yr amseroedd, clefydau, a dihirdra twyll gyfeillion; llwyddais dan ddwyfol ragluniaethau, nid llawer, os dim, llai na gwyrthiol, i ysgrifenu dros chwe chant o'r cyfryw ag yr wyf yn awr yn eu gosod o flaen fy ngwlad a'm cenedl: pa gymmeriad a gaf i waith fy ngalluoedd bychain dan drymwasg oedran, dim llawer llai na ddeng mlwydd a thrugain, nis gwn: odid fawr na chaf ragfarn yr anffaeledigion yn daer i'm herbyn, neu yn hytrach i'm brad-ergydio drach fy nghefn: yr wyf yn deall bod rhai yn ymbarattoi at y gwaith; maddeuaf iddynt, dan obaith y maddeu Duw iddynt hefyd. Gwir yw, ni chant ddim yn fwy ngwaith a debyga'u y mesur lleiaf i'r cyfryw ynfydrwydd gaugrefyddgar a bloeddio *Bryn Calfaria*, gan ei wneuthur, (agos os nid yn gwbl) yn wrthddrych ei heulun-addoliaeth. '*Ymgysylltasant ag eulunod gadawer iddynt*,' Hosea iv. 17.

2. "Amcenais gadw, mor agos ag y medrai fy neall gwan i, at feddwl yr ysgrythyrau: cymmerais waith y Brenin Dafydd yn ragddarlun immi, amcenais, er cloffed fy neall, ei ddilyn, ag ymgadw mor agos ag y medrwn at ei ffordd ef; fy ngheinmygedau yn gyffredin ydynt fal ei rai yntau; mawl i Dduw; rhagoroldeb ei air a'i gyfraith; gwynfydedigrwydd y cyfiawn a rodio yn ei hol; addewidion Duw i'r sawl a'i ofnant, a'i carant ag a ufyddhânt iddo; gwelir rhai o'm Salmau yn athrawiaethol, yn annog cyfiawnder, cariad, trugaredd, adfwynder, gobaith a chred yn Nuw; yn annog i lynu'n gadarn wrth y gwir, ei ddilyn, ba le bynag y bo'n yn ein arwain, a hynny hyd farw drosto lle bo achos yn gofyn: i ufyddhau i Dduw yn hytrach nag i ddyn. Yr wyf, er pan gyrhaeddais oedran deall ag ymbwyll, wedi dwyn fy nhystiolaeth, gair ag ysgrifen, yn erbyn carn-lofruddiaeth rhyfel; yn erbyn mawrion y byd hwn a dderchafant eu gorseddfeinciau yng nghanol ffrydiau gwaed eu cyd-ddynion; ag nid llai yn erbyn y rhai a geir yn gelwyddog yn eu chwanegiadau at eiriau Duw'r gwirionedd. A chan godi'm llais yn uchel yn y cyfryw dystiolaethau, boed immi ymbarhau oni chanwyf yn iach i'r byd hwn.

3. "Salmau'r Eglwys yn yr Anialwch y gelwais fy nghaniadau: y mae gaudduwiaeth yr awdurdodau daearol, yn Eglwys Rhufain, Eglwysi Luther, rhai Calfin, rhai Olifer Cromwell, ag eraill, fwy nag a dal eu rhifo, mwy nag y sy'n deilwng o gael eu henwi, wedi gyrru Eglwys Duw a'i Grist i ryw anialwch neu ddiffeithwch dyrys iawn o Dybiadau Dyn, a geufarn hunanfudd meibion tywyllwch: yr ydym bawb o honom, fwy neu lai, a'n hymdaith yn y diffeithwch cadduglyd hwn, yn ymgigweinio'n gilydd am ein meddyliau, ac am danynt yn ysglyfaethu clod i'n hunain, heb ystyried nad oes yn hyn y gronyn lleiaf o glod i Dduw, eithr y cwbl o'n hymrysonau yn gabledd parod yn ei erbyn. Cariad yw Duw ac nid galledig inni fod yn blant iddo ef, heb fod a'n holl ymddwyn y naill at y llall yn gariad a thangnefedd; gan adael cydwybod pob dyn i'r Duw a wyr ei chwilio a'i chyfiawn farnu.

4. "Rhydd i bob dyn ei feddwl, rhydd i bob meddwl ei farn, a rhydd i bob barn ei lafar; ond nid rhydd i neb ond i Dduw yn unig farnu ar y naill neu'r llall o'r pethau hyn, mewn perthynas i grefydd a phethau'r byd y sydd ar ol hwn.

5. "Os byw a fyddaf i gyhoeddi cyfrol arall, dywedaf baham y gelwais fy nghaniadau yn SALMAU yn hytrach na HYMNAU, nid oes yma le gennyf i'm cymmhwyliadau.

6. "Cyhoeddwyd Hymnau yn ddiweddar ym mha rhai y gwelir llinellau cyfain, a dau linell ynghyd, yr un peth a'm rhai innau; nid myfi yw'r benthycciwr; bu'm Salmau i mewn ysgrifen yn nwylaw amryw o ddynion rhai flynyddau yn ol; bu yng nghylch pedwar cant o honynt yn nwylaw un gweinidog ar ymdaith dros y ran fwyaf o Ddeheubarth Cymry; nid boddlon wyf i adael lle i neb fy marnu'n euog o annhegwch lle nad wyf yn haeddu'r cyfryw dyb am danaf; y mae'n chwith fy mod yn gorfod fal hyn son am y cyfryw ddistadledd. Gwell a fuasai bod y papurle'n rydd i bethau mwy buddiol, i synniadau a fuasaint yn ymgysoni'n well a chaniadau crefyddol.

7. "Amcenais fydryddiaeth lithrig a rheolaidd, herwydd hen gelfyddyd cerdd Arwest. Ymgedwais rhag twyllodli oddieithr lle gorfu arnaf droseddu'n erbyn y reol, am nad oes (fal y dywed y dysgedig Fardd Edmund Prys,) dim mewn synwyr yn ein hiaith ni yn cyfodli a Duw. Nid ar ben pob cant milldir y ceir un a'm deall yma.

8. "Ymarferais a rhai geiriau a geir ar arfer lled gyffredin yn y Wenhwyseg, sef Iaith pedair Sir ddwyreiniol Ddeheubarth Cymry, y mae'r Dr. Davies yn nodi rhai o honynt yn ei Eirlyfr, fal hen eiriau wedi cael eu gollwng dros gof ac arfer er ys oesoedd yn ol, ond camsyniodd ef yn hynny. Y mae'r Wenhwyseg yn burach o lawer yn null ei hymadroddion na'r Wyndodeg, er bod llawer yn barnu yn amgen; y mae yn nes o lawer at Iaith ein gorhenfeirdd na'r Wyndodeg, nid ymarferodd un ysgrifenwr, nag ar gân nag mewn rhyddiaeth, erioed a thafodiaith anhydrefn Gwynedd, hyd ynghylch dechreu'r bymthegfed ganrif; y Wenhwyseg yw Iaith holl hen feirdd Gwynedd yn amser y Tywysogion, a thros amser hir wedi hynny; ni welwyd rhyddiaith erioed hyd o fewn i'r pedwar can mlynedd diweddaf, yn nhafodiaeth Gwynedd; ac am hanes Tysilio ni fu bodoldeb erioed iddi, ond yn ffug ac anwiredd Lewys Morys ai gydymddichellwyr. Y mae rhif y Cymry a lefarant y Wenhwyseg yn amlach o lawer na'r rhai a siaradant un o gangheni eraill y Gymraeg, am hynny cyfiawnder yw dwyn eu hiaith ymlaen i'r goleuni; a'i rhyddhau o'r tywyllwch ym mha un y mae wedi bod dros hir amser agos yn anweledig i bawb. Y mae'n amlach ei geiriau yn

fwy rheolaidd ei chyfansoddiad, yn fyrach, cryfach, a gloywach ei hymadroddion na'r Wyndodeg, na'r Ddeheubartheg.

9. "Heblaw'r geiriau Gwenhwyseg, ymarferais ag ambell air arall anghyffredin a lluniais eiriau cyfansawdd, lle bu achos immi er darlunio'n fyr ag yn eglur, fy nhybiadau a'm syniadau. Rhoddais yn niwedd y llyfr eglurhad y ran fwyaf o'r geiriau a fernir yn anghyffredin yng Ngwynedd, ac yn rhanau eraill o Gymru.

10. "Nid ymarferais, eithr o ddamwain, a'r cynghaneddau barddonaidd, achos eu bod yn caethu'r synwyr, yr ymbwyll, a thrwy hynny 'r gwirionedd; am hynny nid addas ymarfer a nhwy ar gân Arwest grefyddol. Nid oes dim gymmaint yn gofyn byrder ag eglurder iaith nag ymadrodd, ag egwyddorion a syniadau crefyddol.

11. "Nid wyf wedi mawr ymarfer a throellau ag addurnau, am nad yw Cyffrediniaid Cymru yn eu deall: gellir dywedyd llawn gymmaint am y ran fwyaf ym mhell o'r athrawon crefyddol. Yr un peth am y deillion arwain ac am y deillion dilyn; pa rai a'm hudasant fil o weithiau i feddwl fy mod yn canfod gair y Prophwyd Hosea yn cael ei gyflawni yng Nghymru—'*Fy mhobl a ddifethir o eisieu gwybodaeth.*'

12. "Oni buasai am ddysgeidiaeth, a'r gwyhodaeth y maent hwy gymmaint yn eu dirmygu, er amddiffyn eu hunain yn eu hanwybodaeth, ni fuasai gennym etto air bychan o'r ysgrythyrau yn Iaith ein gwlad ni! Molianwn Dduw am y Dysgedigion a gawsom gynt yn ein gwlad, a gobeithiwn y denfyn ef, yn ei bryd, eraill o'r cyfryw i'n mysg.

13. "Rhoddais Englyn ar ol ambell Salm, fe allai y bydd hyn ryw faint o ddiddanwch i'r ambell un a wyr ryw ychydig o reolau mesur. A lle bo gweinidog a fedro ei ddarllain yn reolaidd, ni wn i pam yn y byd na ellid yn ddigon priodol ei ddatgan ar ol canu'r Salm; naturiol i ddyn ymhyfrydu mewn amrywioldeb, nid oes un gwirionedd yn ein byd ni yn fwy amlwg ag anwrthddadladwy na hyn; ac ni wn i paham na bai'n iawn cymmwyso'r gynneddf hon at achosion addysg grefyddol, ag er clod a moliant i'r Bod mawr a'i rhoddes yn wreiddiol yn ein natur ni.

14. "Gadawer i mi yma ddwyn fy nhystiolaeth yn erbyn yr anferthwch cywilyddus a ddygwyd yn ddiweddar i'r Gymraeg, sef ysgrifenu *Cymmry, yn mlaen, yn mraint, anmharch, anmraint, &c.*, yn lle *Cymry*, neu *Cymmry, ym mlaen, ymmraint, ammharch, ammraint &c.* Nid oes nawr awdurdod yn y Byd i'r fath beth ffieiddlef; clywaf fod gair wedi myned allan yng Ngwynedd fy mod i wedi bod a llaw yn y gwaith o ddwyn i mewn i'r Iaith y budreddi hwn, ag eraill o'r cyfryw; ond nid oes gair o hynny'n wir. Bydded pawb ar eu gochel rhag cael eu harwain ar gyfeiliorn gan yr Hudlewyrn mawr.

15. "Bydded yr hyn a wnaethum er daioni, er addysg, ag er diddanwch gwir grefyddol, i bob un ag sy'n ymarfer a'r Iaith Gymraeg. A bydded yn cydfyned ag ef y cyfryw fendith a welo Dad pob cariad a phob cyfiawnder yn gymmwys iddo.

IOLO MORGANWG."

Trefflemin, Alban Hefin, 1812.

Y mae gennyf amryw resymau dros ddyfynu y cwbl o'r rhagflaenol; yn gyntaf o herwydd ei fod yn cynnwys syniadau Iolo ar amryw o destunau sydd mewn dadleuaeth yn yr amser presenol; yn ail, o herwydd fod y rhagymadrodd hwn ynghyd a phob peth arall a ddaeth o dan ei law, yn arddan-

gos nodweddiad yr hen fardd, yn traethu darnau o hanes ei deimladau, ei ymdrechion, a'i feddyldrychau, ac yn eglurhau ei gryfder, ei wendidau, a'r rhan fawr o hunan-gariad sydd yn treiddio ei holl gyfansoddiadau; ac yn drydedd, o herwydd fod y chwechfed dosran yn galw am un neu ddau o sylwadau. Y mae Iolo yma yn awyddus iawn i brofi nad oedd efe yn fenthycciwr o eiriau a drychfeddyliau ereill; ac yn y *Lyric Poems* y mae'r un teimlad yn tarddu allan mor fynych, nes yw yn diflasu'r darllenydd trwy gymmaint o ymffrost afreidiol. Hyspysir immi mai gwrthddrych ei gyhuddiadau oedd y gwr a elwid mewn gwawdiaith,

"Apostol mawr Penpistyll,
A'i araeth erchyll ef,"

sef, Mr. Thomas Evans, hen weinidog Aberdâr, yr hwn a berchid yn ei ddydd am ei synwyr cryf, a'i ymddygiad gostyngedig a diragrith; ac a berchir etto gan bawb a'i hadnabuent, er fod tuedd yn ngweinidogion Undodaidd y Deheubarth, i fychanu ei enw, ei gof, a'i waith, am na wyddai yr *hic, hæe, hoc* sydd mor bwysig yn eu golwg hwy. Cyhoeddodd gasgliad o Hymnau yn 1811, ac yn y casgliad hwnw, dywedir iddo fenthycca dwy linell o waith Iolo; os felly, yr oedd bai arno; ond gobeithiaf iddynt gael eu bwrw allan o'r ail argraffiad yn 1822, rhag fod y rhan Dderwyddol o'r hen fardd yn cael ei aflonyddu yn nghylch Abred, neu pa le bynag y dygwydd fod ar hyn o bryd. Yr oedd lladratta oddiar Iolo Morganwg yn bechod anfaddeuol; ond y mae yn debyg fod hawl ganddo ef, fel "bardd braint a defod," i gymmeryd a fynnai o eiddo ereill. Deng mlynedd ar hugain cyn ymddangosiad Hymnau Iolo, cyfansoddwyd y llinellau canlynol, gan fardd Saesonaeg o'r enw William Cowper.—

"THE LOVE OF THE WORLD REPROVED; OR, HYPOCRISY DETECTED.

Thus says the prophet of the Turk,
Good mussulman, abstain from pork;
There is a part in ev'ry swine
No friend or follower of mine
May taste, whate'er his inclination,
On pain of excommunication.
Such Mahomet's mysterious charge,
And thus he left the point at large;
Had he the sinful part express'd,
They might with safety eat the rest;
But for one piece they thought it hard
From the whole hog to be debarr'd;
And set at work their wit to find
What joint the prophet had in mind.
Much controversy straight arose,
These choose the back, the belly those;
By some 'tis confidently said
He meant not to forbid the head;
While others at that doctrine rail,
And piously prefer the tail.
Thus, conscience freed from ev'ry clog,
Mahometans eat up the hog."

Y mae pennill arall gan Cowper, a dywed y Parch John Newton, fod y llinellau wedi ymddangos cyn eu cyhoeddiad yn ngwaith y bardd yn y *Leeds Journal*, heb gennad yr awdwr, ac ynghyd ag ychwanegiadau afreidiol (*Cowper's Poems, Edit.* 1808, *Vol.* 1, *p.* 242). Yn yr ail bennill, y mae'n cyfeirio'r foesawd at ymddygiadau Cristnogion:—

"You laugh—tis well—the tale applied
May make you laugh on t'other side.
Renounce the world—the preacher cries,
We do—a multitude replies.
While one as innocent regards
A snug and friendly game at cards;
And one, whatever you may say,
Can see no evil in a play;
Some love a concert, or a race;
And others shooting, and the chase,
Revil'd and lov'd, renounc'd and follow'd
Thus bit by bit, the world is swallow'd;
Each thinks his neighbour makes too free,
Yet likes a slice as well as he;
With sophistry their sauce they sweeten,
Till quite from tail to snout 'tis eaten."

Yn niwedd Salmau Iolo (Cyfrol 1,) ceir "Cywydd y Mochyn Mawr, neu hanes ymrysonau gwyr y moch; sef Darlun Crefydd y Trachwantus goludgar, y Beilchion, Canawon rhagrith, a'r Bydol-ddoethion yn gyffredin;" yr hwn sydd yn dechreu fel y canlyn:—

"Plaid Mohamed a gredant,
A'u dewr nwyf ei daeru wnant,
Nid da moch, rhaid eu gochel,
Na bwyd i ddyn boed a ddel;
Man a ddoded, maint lled llaw,
Dir bechod ei rybuchaw;
Man drwg ar fochyn, mae'n drist!
Yn uthredd a'n gwna'n athrist—
Annedwydd, ac nis nodwyd,
Yw hyn o fan inni'n fwyd.
Iawn dy fryd, bydd yn dy fraw
Da landdyn! mae diawl ynddaw.

Och! och! pa fan ar fochyn?
Ni ddywed Mohamed hyn;
Na fuasai'n rodd, er bodd byd,
A didwyll air yn d'wedyd;
Cawsem mewn hedd y gweddill
Heb amheuon na son sill.
Gan ei fod heb ei nodi
Diau'n iawn nid yw i ni
Fwytta'r mochyn, bryntyn brych,
Na chynnyg byth ei chwennych,
Fal hyn dan fraw aflawen
Mae plant cred Mohamed hen.

Gwir ydyw, rhai a gredant,
A'i daeru'n wir dewr a wnant,
Y gwyddant am a guddiwyd
Rhag dyn ar fochyn yn fwyd;
Bol, medd y naill cyfaill cu,
Rhan hawdd ei wirioneddu;
Cefn, medd y llall, gwr call cain,
Ag araith drefnus gywrain;
Nage, 'r Pen, blwch'r ymmhenydd,
Medd ffraethach ffelach ei ffydd.
Ffaelu mae pawb o'r ffyliaid
Medd callach hyfach o'r haid,
Cynffon, yw'r man bychan byr
Ni ddylaint Iawn-addolwyr,
Na'i flysio na'i finio fyth
Rhag dialedd rhag dilyth;
Rhag melldith i'w plith a'u plant;
Yn hyrwydd fal hyn haerant,
Arall a floeddia'n erwin
A'i fawr ddoethineb o'i fin,
Gwelaf, medd ef, a'm golwg
A draidd hyd wreiddyn y drwg,
Y Gwrych, da gwyr pob gwrachan,
Drwg yw'n fwyd ar glwyd i'r glan,
Saig yw'r Gwrych. rhy sych i'r sant,
A'i finio'r doeth ni fynnant.

Etto, medd un yn atteb,
Diau'n awr ni raid i neb
Adael ond a ddywedwyd,
Ac yna cawn faethlawn fwyd;
Iawn oll ond y Gwrych i ni,
A gwall ar ddyn ei golli,
Er bod blys hysbys yw hyn,
Mae achos bwytta'r mochyn, &c."

Nid oes achos un amheuaeth mai cyfieithad yw "Cywydd y Mochyn" o Saesonaeg Cowper; wele air am air, a drychfeddwl am ddrychfeddwl; ac nid oes un gwahaniaeth rhyngddynt, oddieithr fod un yn Saesonaeg a'r llall yn Gymraeg, un yn gryno heb eiriau llanw ar llall yn amleiriawg. Nid yw yn hysbys immi pa un ai allan o'r *Leeds Journal*, neu o weithiau Cowper y cymmerwyd y gwreiddiol, onite buaswn yn alluog i benderfynu pa un ai "ychwanegiadau afreidiol gan law anadnabyddus," yn y *Leeds Journal*, neu eiddo Iolo yw yr amleiriad; ond nid yw hynny yn lleihau dim ar fai yr hen fardd; ac er ei fod yn llym-geryddu arall am gymmeryd ei eiddo ef, y mae'r ffaith yn ddigon amlwg iddo yntau fod yn euog o ymwisgo ei hun mewn plu benthyg a pherthynol i aderyn arall, heb iddo erioed addef y lladrad.

(*I'w orphen yn y Rhifyn nesaf.*)

CHWEDLAU'R DOETHION.

A glywaist ti chwedl y Fran wenn,
Yn darogan Tynghedfen?
Llaw lan diogel ei pherchen.

A glywaist ti chwedl yr Eos
Yn y Coedydd yr hafnos?
Gnawd uwch benn Dedwydd diddos.

—*Iolo MSS.*

TRAETHAWD AR FFYDD.

"A'r galon y credir i gyfiawnder."—PAUL.

FFYDD yn Nuw ydyw sylfaen pob gwir grefydd, ac y mae ffydd yn Nghrist yn anhebgorol i Gristnogrwydd; am hyny y mae o bwys mawr i ddeall beth sydd i'w feddwl wrth ffydd yn Nuw ac yn Nghrist, ac i ymofyn pa mor belled yr y'm ni yn meddu ar y cyfryw ffydd ac yn byw dan ei llywodraeth. Er fod duwinyddion poblogaidd a'u canlynwyr wedi cysylltu â'r pwngc lawer o syniadau tywyll ac anghyson â'u gilydd, yr hyn sydd wedi bod yn rhwystr ar ffordd cannoedd; fe ymddengys nad oes mewn gwirionedd unrhyw ddyryswch neu anhawsdra neillduol yn perthyn i'r pwngc o hono ei hun. Nid oes eisiau ond rhoddi heibio ragfarn ac awdurdod dynol, er cael y ffordd yn glir i'r ymofynydd difrifol. Ni ofynir rhyw ddysg lawer, nac mewn ieithoedd, nac mewn dadleuaeth nac mewn rhesymeg ychwaith. I gael ffydd yn Nuw ac yn ei Fab Iesu Grist ein Harglwydd, nid oes eisiau rhagor nâ darllen yn astud ac yn ddifrifol llyfr natur a llyfr dadguddiad—dwys-fyfyrio ar eu cynhwysiad; ac ufyddhâu i'r hyn a ymddengys yn wirionedd. Os gwnawn holi ein hunain yn ofalus, gallwn gael gwybod pwy mor belled yr ydym yn byw dan yr argyhoeddiad o *fod Duw;* ac mai yr Iesu croeshoeliedig oedd y Crist, Mab Duw, y dysgawdwr o awdurdodiad dwyfol, a Iachawdwr y byd; a phwy mor belled mae yr hyn yr ydym yn ei broffesu yn effeithio ar ein serchiadau a'n hymarweddiad. I egluro a dirgymheli y pethau hyn yw amcan yr ysgrif hon.

1. *Nid rhyw gydsyniad dall ydyw ffydd, nid rhywbeth a ymddibyna ar y teimladau.*

Gosodir yr haeriad hwn i lawr yma, a delir arno fel gwirionedd pwysig, er mwyn gosod y darllenydd ar ei ocheliad, rhag pwyso ar *broffes* yn unig o ffydd, dim ond enw o Gristnogrwydd, ar un llaw; a rhag rhoddi cyffröad nwydau a theimladau yn lle dwys argyhoeddiad o'r gwirionedd, ar y llaw arall. Y mae dynion yn rhy barod i ymfoddloni ar ddywedyd, "Yr wyf yn credu yn Nuw, ac yn ei Fab Iesu Grist, ein Harglwydd," heb roddi eu meddwl yn ddifrifol ar y testunau pwysig a diddorol hyn, heb dalu y sylw a ddylent i'r profion dros wirionedd y peth y proffesant ei gredu. Gofynir feallai, beth yw'r achos o'r fath hunan-dwyll, mewn matter a dybiasid nas gallasai lai nâ chyffroi'r deall a dihuno'r gydwybod; ai anwybodaeth neu anystyriaeth? Y mae'n ddigon yn awr i atteb, P'un ai y naill neu'r llall, yw yr achos; neu ynte y ddau ynghyd—bod yr anwybodaeth a'r anystyriaeth a'r hunan-dwyll canlyniadol nid yn unig yn anesgusodol, ond yn eithaf peryglus a niweidiol. Gellir dywedyd hefyd am yr hunan-dwyll yma, mai un ydyw o'r "ofer ymarferion a dderbyniasom trwy draddodiad ein tadau," ac oddiwrth egwyddorion ac esiampl y byd lle yr y'm yn byw.—Ymfoddloni ar sŵn yn lle synwyr, cysgod yn lle'r sylwedd! Ai tybied mai *credu* yw, rhoi cydsyniad i ffurf o eiriau nad oes ystyr ddealladwy iddynt, neu heb erioed geisio eu deall! Mai *ffydd* yw, cyffesu yn unig â'r tafod eu bod yn credu mewn ffeithiau, pa rai er maint eu gwirionedd a'u pwysigrwydd, nid ydynt yn rhoddi eu gofal a'u myfyrdod arnynt! Ai posibl mai hyn yma yw "credu â'r galon?" Ai posibl mai hon yw'r ffydd gadwedigol? Pa gymaint y sydd o'r rhai a ddywedant eu bod yn credu yn Nuw ac yn ei Fab Iesu Grist ein Harglwydd, ag sydd yn byw fel pe na b'ai Duw yn bod; ac nid ydynt

yn eu tymer a'u hymarweddiad yn dangos mwy o barch i'r efengyl na phe y credent nad ydyw ddim yn y byd ond chwedl? A ellir cyfrif y rhai hyny yn wir gredinwyr yn Nuw, ag sydd yn cablu ei enw, yn diystyru ei awdurdod, ac o wirfodd yn troseddu ei orchymynion sanctaidd? Beth bynag fyddont yn broffesu eu bod yn credu, nid ydynt ond Atheistiaid ymarferol. A all y rhai hyny fod mewn gwirionedd yn gredinwyr yn Nghrist, y rhai nid ydynt yn rhoddi ymwrandawiad difrifol i'w efengyl, y rhai sy'n esgeuluso'r iechydwriaeth fawr sydd wedi dyfod trwyddo; ac yn byw mewn anufydd-dod i'w gyfarwyddiadau cyfion? A all y rhai hyny sydd yn bucheddu fel pe na baent yn disgwyl am fywyd ar ol yr un presenol, sy'n ymofyn eu holl wynfyd yn mhethau'r byd hwn, gan weithredu fel pe na bai dim i'w obeithio neu i'w ofni tudraw i'r bedd, fod mewn gwirionedd yn credu mewn byd i ddyfod, lle y bydd gwobrwyon a chospedigaethau, gwynfyd a thrueni? Ddarllenydd, gosod y pethau hyn at dy galon; ystyria a gwel, a ydyw dy broffes yn rhywbeth heblaw enw, dy ffydd yn rhywbeth mwy na chydsyniad dall, dy grefydd yn rhywbeth heblaw ffurf yn unig ac ymddangosiad allanol, os dyna'r fâth ydynt, och am danat! Beth a wnai pan y gofynir dy enaid oddi wrthyt?

Er fod gwir ffydd yn Nuw a Christ, yn dwyn effaith daionus ar yr holl deimladau; etto, na cham-gymerer cynhyrfiad nwyd a theimlad yn lle ffydd. Dichon i'r nwydau gael eu heffeithio a theimladau cryf gael eu cyffroi, lle ni theimlir argyhoeddiad o'r gwirionedd. Ffydd sydd argyhoeddiad o wirionedd ag a grëir trwy eglurdeb prawf. Dywed yr Apostol wrthym, Rhuf. x. 17—"Ffydd sy'n dyfod trwy glywed, a chlywed trwy air Duw." Rhaid i chwi wrandaw yn astud, dwys-ystyried y peth yr ydych yn ei glywed, a defnyddio pob help i'w ddeall, os mynnwch gredu er iechydwriaeth eich eneidiau. Pan y byddoch yn ymwrando â'r efengyl, fel ei ceir ar lawr yn ysgrifeniadau yr Efangylwyr a'r Apostolion, yn y Testament Newydd, yr ydych pryd hyny yn clywed gair Duw; canys derbyniodd yr Apostolion eu dysgeidiaeth oddiwrth Iesu Grist, a dywedodd yntau—"Fy nysgeidiaeth nid eiddof fi yw, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i." Ac etto—"Yr hwn sydd yn credu ynof fi, sydd yn credu yn yr hwn a'm hanfonodd i." Y mae yn amhosibl i chwi fod yn wir gredinwyr yn Iesu Grist, heb ddifrif-wrando ar ei efengyl, neu ymhellach nâg yr ydych yn deall yr hyn sydd ar lawr am dano yn y Testament Newydd. Dyfal-wrandewch gan hyny, mewn ysbryd ufydd gostyngedig, ar y tystiolaethau ffyddlon hyny, fel y "credoch a'r galon i gyfiawnder."

II. *Ar Fyddyn Nuw.*

Rhaid i ddyn gredu yn Nuw cyn y gall gredu mai Iesu yw y Crist. "Yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finau hefyd," Ioan xiv. 1. Ystyr y gair Crist yw *Eneiniog.* A pha fodd y gellir credu fod yr Iesu wedi ei eneinio gan Dduw â'r Ysbryd Glân ac a nerth, neu wedi derbyn oddiwrtho bob cymhwysderau ac awdurdod i gyhoeddi a sicrhau ei gennadwri fawr, oddieithr y credir yn gyntaf yn Nuw, yr hwn a'i eneiniodd ef. O herwydd hyny bernir yn briodol i wneuthur rhai sylwadau ar ffydd yn Nuw, cyn i mi lefaru yn neillduol am ffydd yn Nghrist.

Y mae ffydd yn Nuw yn cynnwys credu ei fod; y mae yn cynnwys hefyd hyder ac ymddiried ynddo am ei fod y peth yw, yr hyn nis gellir yn wirioneddol, oni byddir yn credu ei fod yn ewyllysgar fel y mae yn alluog i wneuthur daioni, a'i fod yn ewyllysio yn dda i bawb yn ddi-wahaniaeth. Gwelir

ein bod yn defnyddio y gair *ffydd* yn y fan yma yn ei ystyr neillduol—briodol i'r sawl a gredant mewn Bod o Anfeidrol gariad. Mae'r gwahaniaeth yn teilyngu sylw. Pob peth a ymddengys yn wirionedd sydd yn wrthddrych *crediniaeth*; ond gwirionedd *cysurlawn*, neu newydd da yn unig sydd yn wrthddrych *ffydd*. Y mae llawer yn credu yn y Bod o Dduw, nad yw eu golygiadau am dano yn caniatau fod ganddynt ffydd ynddo; a hyny am nad ydynt yn edrych arno fel cyfaill holl-alluog a chymwynasydd pawb. Y mae gan gofleidwyr y dyb boblogaidd *grediniaeth* y bydd Duw i gadw myrdd myrddiynau o'i greaduriaid rhesymol mewn poenau arteithiol am byth; ond cam-arferiad o'r gair fyddai dywedyd fod ganddynt *ffydd* y bydd iddo wneuthur felly â gwaith ei ddwylaw, neu fod ganddynt ffydd ynddo *am* wneuthur felly. Diammeu fod ganddynt ryw ffydd neu hyder eu bod hwy yn rhydd oddiwrth y cyfryw ddamnedigaeth; ond ymddengys mai *nid yn Nuw* y mae eu hyder, am ei fod yn ewyllysiwr da iddynt hwy a phawb, eithr yn yr *arfaeth* dywyll trwy yr hon y gobeithiant fod eu hetholedigaeth hwy wedi ei sicrhâu. Pa fodd bynag y mae tystiolaeth yr ysgrythyr yn bendant mai amcan yr oruchwyliaeth newydd, a'r gweithredoedd nerthol a wnaed yn a thrwy Grist oedd, "fel y byddai ein ffydd ein gobaith ni yn Nuw."

Sylwyd fod ffydd yn Nuw yn cynnwys credu ei fod, ynghyd â hyder ac ymddiriad ynddo. Y mae yn cynnwys hefyd grediniaeth a derbyniad o'r hyn y mae wedi ei hysbysu a'i gyhoeddi, ynghyd âg ufydd-dod iddo. Yn unol a hyn dywedir wrthym, (Heb. xi. 6,) "ei bod yn rhaid i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod ef, a'i fod yn wobrwywr i'r sawl sy'n ei geisio ef." Ac etto, yn llefaru am Abraham, fe ddywedir—"Ti a weli fod ffydd yn cyd-weithio â'i weithredoedd ef, a thrwy weithredoedd fod ffydd wedi ei pherffeithio. A chyflawnwyd yr ysgrythyr yr hon sydd yn dywedyd, Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder." Iago ii. 22, 23. Fel yma yr oedd ffydd hen Dad y ffyddloniaid yn gynnwysedig yn ei waith yn derbyn fel gwirionedd yr hyn a hysbysodd Duw iddo, gan bwyso arno ac ufyddhau iddo. Os ydym yn credu fod Duw, Tad daionus pawb oll, diau y gallwn roddi ein hyder a'n llwyr ymddiriad ynddo; rhaid mai efe yw gwrthddrych penaf a theilyngaf ein ffydd, a dylem fod yn ffyddlon iddo yn mhob peth, a rhodio yn barhâus mewn ufydd-dod i'w orchymynion.

Er mai Bod anweledig yw Duw, ac nis gwelodd llygad ac nis gall ei weled ef, y mae y profion o'i fodoliaeth a'i berffeithderau dwyfol, yn llenwi yr holl-fodoldeb. Y nefoedd a'r ddaear a'r amrywiol rywogaethau o fodau a bywydolion. a wyddom ni am danynt, ni allasent ddyfod o ddamwain, nis gallasent grëu eu hunain; rhaid fod rhyw allu mawr anweledig, yr achos dechreuol, gwneuthurwr pob peth. Y mae'r prawf eglur o ddyfais ac amcan, sy'n ymddangos yn mhob rhan o'r greadigaeth, yn ffurfiad pob perchen bywyd, pob llysieuyn ac anifail, yn dangos mai Bod deallus gwirioneddol yw y Creawdwr, yr hwn sydd yn meddu ar ddoethineb yn gystal â gallu perffaith; ac y mae y profion o'i ddaioni i'w canfod yn mhob man. Fel yma oddiwrth ei weithredoedd gweledig yr ydym yn cael allan fod Duw, a'i fod yn holl-alluog, doeth a da. Yr ysgrythyrau a'n cyfeiriant at ei weithredoedd ef, am brawf o'i allu tragwyddol a'i Dduwdod, ac fel sail i'n ffydd a'n hymddiriad ynddo. "Dyrchefwch eich llygaid i fynu ac edrychwch pwy a grëodd y rhai hyn; Esai. xl. 26 "Y nefoedd sydd yn dadgan gogoniant Duw a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwylaw ef;" Salm xix. 1.—

"Canys ei anweledig bethau ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg; sef ei dragywyddol allu ef a'i Dduwdod," Rhuf. i. 20. "Ni adawodd efe mo hono ei hun yn ddidyst, gan wneuthur daioni a rhoddi gwlaw o'r nefoedd i ni, a thymhorau ffrwythlon, a llenwi ein calonau ni a lluniaeth ac â llawenydd," Act. xix. 17. Y mae dadguddiad dwyfol yn gwneuthur Duw yn adnabyddus i ni, fel pen-llywodraethwr a Thad graslawn pawb oll, perffaith gyfiawn a daionus, trugarog a ffyddlon. Ac y mae'r grediniaeth o'r pethau hyn yn crëu hyder a llawenydd, cariad ac ufydd-dod.

III. *Am Ffydd yn Nghrist.*

Heb ffydd yn Nghrist nis gall neb fod yn Gristion. "Canys sylfaen arall nis gall neb ei osod, heblaw yr hon a osodwyd," 1 Cor. iii. 11.

Wrth ffydd yn Nghrist y meddylir, credu mai efe yw y Messia, yr hwn ddarfu Duw ei eneinio â'r Ysbryd Glân ac â nerth; ei fod ef wedi ei gyfodi i fynu, a'i awdurdodi a'i anfon gan Dduw, a chenadwri rasol i'r byd; fod yr hyn a ddysgodd ef o darddiad ac awdurdod dwyfol. Y mae yn cynnwys crediniaeth yn y gwirioneddau neu'r ffeithiau sydd yn ysgrifenedig am dano, yn y Testament Newydd, yn enwedig ei farwolaeth, ei adgyfodiad a'i ddyrchafiad. Y mae ffydd yn Nghrist hefyd yn cynnwys crediniaeth o'r pethau a ddarfu ef eu dadguddio, eu dysgu a'u gorchymyn; ac i'w credu ar ei awdurdod ef fel dysgawdwr oddiwrth Dduw; fel y cafodd y pethau hyn eu tystiolaethu gan yr Apostolion, ac y maent ar lawr yn yr Efangylwyr. Fel y byddom i gredu fel hyn, rhaid i ni ddarllen, chwilio a barnu drostom ein hunain, beth ddarfu Iesu Grist ei ddadguddio, ei ddysgu a'i orchymyn.

Y mae ffydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist, yn cynnwys ufydd-dod iddo, bod yn ffyddlon iddo fel ei weision a'i ganlynwyr, ac i ufyddhâu o'r galon i'w ddysgeidiaeth ef,—Rhuf. vi. 17.

Credu mai Iesu yw y Crist, derbyn fel gwirionedd y pethau hyny ag y mae'r efengyl yn eu eglur-dystiolaethu, a byw yn ufydd i'w orchymynion sanctaidd, sydd yn gwneud i fynu Gristion gwirioneddol,—1 Ioan v. 1—3.

Y Testament Newydd yw sail ein fydd ni yn Nghrist. Yno y cawn dystiolaeth yr Apostolion am dano, y rhai oeddent ei gymdeithion trwy ystod ei fywyd a'i weinidogaeth gyhoeddus, a thystion o'i adgyfodiad. Yno y ceir ar lawr y profion sydd yn dangos mai efe oedd y Messia.—1. *Ei Wyrthiau.* —Nicodemus, penaeth yr Iuddewon a ddywedodd—"Nyni a wyddom mai dysgawdwr ydwyt ti wedi ddyfod oddiwrth Dduw, canys ni allai neb wneuthur y gwyrthiau hyn yr wyt ti yn eu gwneuthur. oni b'ai fod Duw gydag ef,—Ioan iii. 2. Yr Apostolion a haerent wirionedd gwyrthiau'r Iesu yn ngwydd lluaws o Iuddewon a Phroselytiaid Iuddewig, fel pethau adnabyddus, ac nis gwrthddywedwyd bwynt; Act. ii. 22. 2. *Y proffwydoliaethau a gyflawnwyd ynddo*—Yr oedd yr Apostolion yn cyfeirio yn eofn at y rhai'n, fel prawf mai Iesu oedd y Crist. 3. *Ei adgyfodiad* oddiwrth y meirw trwy allu Duw; Rhuf. i. 4. 4. *Y doniau gwyrthiol* a gyfranwyd i'r Apostolion y rhai a ddangoswyd ac a brofwyd yn ngwydd tyrfaoedd o bobl. Act. ii. 33. Y pethau hyn nid ydynt ond braidd yn cael eu henwi; deisyfir ar y darllenydd i chwilio y Testament Newydd drosto ei hun ar y pwngc; ac i gadw mewn côf, nas gallai yr Apostolion gamsynied ynghylch y ffeithiau ag oeddent yn tystiolaethu iddynt, gan eu bod yn llygaid-dystion; nad oedd ganddynt ddim i'w ennill yn y byd hwn trwy eu tystiolaeth, ond gwaradwydd

o ddioddefaint; a bod llyfiau y Testament Newydd wedi myned yn ddianaf trwy y prawf o'r manol-chwiliad llymaf, ac wedi cadw eu hawdurdod.

IV. *Am Ffydd Crist.*

Y frawddeg "y ffydd" yn y Testament Newydd, a arwydda yr efengyl, yr hon a elwir "gair y ffydd,"—Rhuf x. 8. Yn unol â hyny yr ydym yn darllen am *ffydd* yn dyfod, yn cael ei dadguddio, yn cael ei phregethu, ac am fod yn ufydd i'r *ffydd*, a "byw trwy ffydd Mab Duw."—Act. vi. 7; Gal. i. 23, a ii. 20, a iii. 23. Wrth *y ffydd* yn y manau hyn a'r cyffelyb, y mae'n amlwg y meddylir, y gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist, ei Efengyl ef; dyma'r ffydd yr hon y dywedir ei fod ef yn "awdwr a pherffeithydd iddi;" yr hon hefyd sydd waith Duw, oblegid Duw a'i rhoddodd, ac y mae yn llawn o'i allu a'i ddylanwad dwyfol. Dylid cofio bob amser fod y gwir ffydd Gristnogol i'w chael yn ei chyflawnder a'i phurdeb yn y Testament Newydd. Ni ddylid byth ganiatâu un brawf-rëol *(standard)* arall o ffydd Gristnogol. Cynghorwn y darllenydd i gadw yn dyn wrth y gwir egwyddor Brotestanaidd, *y Beibl a'r Beibl yn unig*; i beidio ymostwng i un athraw yn materion crefydd, ond i Iesu Grist; ac i ddysgu drosto ei hun oddiwrth ysgrifeniadau yr Apostolion a'r Efangylwyr, beth a ddylai gredu; "fel na byddo ei ffydd mewn doethineb dynion, ond yn nerth Duw."

V. *Am Iechydwriaeth trwy Ffydd.*

Yn ôl iaith yr Epistolau, trwy ffydd Iesu Grist, hyny yw, trwy ei Efengyl, y'n gwaredir ni, bechaduriaid o'r Cenhedloedd oddiwrth ein cyflwr Cenhedlig gynt, ac y derbyniasom gyfiawnhâd i fywyd. Trwy y ffydd hon y mae i ni faddeuant rhâd, a holl fendithion y cyfammod newydd, y rhagorfraint o ddyfod yn feibion i Dduw, a'r gobaith o fywyd tragwyddol. Trwy y ffydd hon y mae i ni bob dwyfol help a chymmorth angenrheidiol tuag at ein galluogi i rodio mewn newydd-deb buchedd. Yr holl ddoniau gwerthfawr hyn ydynt yn deilliaw i ni trwy Efengyl Iesu Grist. Ond gwaredigaeth bresenol yw yr iechydwriaeth hon sydd trwy ffydd, cyflwr presenol o freintiau a doniau. Etto, os byddwn *i lynu* wrth y ffydd, a pharhâu i ddwyn ffrwyth mewn sancteiddrwydd a daioni, yna hi drŷ i maes i ni yn iechydwriaeth amserol a thragwyddol. Nis gall ffydd yn unig ein gwaredu ni; oblegid bydd pawb yn ôl llaw i gael eu barnu yn ôl eu gweithredoedd, ac y mae Crist yn awdwr iechydwriaeth dragwyddol i bawb a ufyddhânt iddo.—Heb. v. 9. Y sawl ni ufyddhânt, gan nad beth bynag eu crêd neu eu proffes, efe a dywed wrthynt, "ewch ymaith oddiwrthyf, nis adwaen chwi erioed."

VI. *Am Ffydd heb Weithredoedd.*

Dywed yr Apostol yn bendant am ffydd heb weithredoedd, *mai marw yw* am ei bod hi yn unig; ac am y dyn a ddywed fod ffydd ganddo, ac yntau heb weithredoedd, y mae yn gofyn, "a all ffydd ei gadw ef?"—Iago ii. 14, 17. Oddiwrth hyn y mae yn amlwg nas gall neb fod yn gadwedig trwy gredu yn unig; fod gweithredoedd da yn anhebcorol er sicrhâu iechydwriaeth a nefoedd yn y diwedd. Er mai ffydd Gristnogol yw sail cyfiawnder efangylaidd, ac y mae'r annogaethau mwyaf nerthol i sancteiddrwydd calon a buchedd yn deilliaw oddiwrth yr Efengyl, trwy weithredoedd da yn unig mae rhoddi prawf penderfynol o gywirdeb ein ffydd. Nid yw y peth a gredom o un defnydd i ni ymhellach nag y byddo yn dylanwadu ein serchiadau a'n buchedd. Nid yw yn cyfnewid ein caracter ger bron Duw, ymhellach nag y mae yn arwain i wellhâd moesol. Nid yw o les i ni nâg

i'n cyd-ddynion ymhellach nag y mae yn ein gwneuthur ni yn gymmwynasgar, rhinweddol a duwiol. Mewn gwirionedd bydd yr hyn yr ydym yn ei gredu, os nâd ydym yn gweithredu yn gysôn âg ef, i'n condemnio ni.

VII. *Diweddglo.*

Ystyriwch y rhagorfreintiau yr ydych yn eu meddu fel Cristnogion, y grâs a ddaeth i chwi trwy Iesu Grist. Y mae genych air yr iechydwriaeth wedi ei anfon attoch. Doniwyd chwi â holl fendithion y cyfammod newydd, â gobaith am fywyd tragwyddol, â'r efengyl, yr hon sydd weinyddiad o'r ysbryd ac o gyfiawnder.

Ystyriwch eich rhwymau, fel rhai yn proffesu ffydd Crist, i ufyddhâu i'w efengyl, ac i ymdebygoli i'r esiampl a adawodd ef i chwi. O, na fyddwch weision anffyddlon i feistr sydd mor fawr ac mor dda. Na wnewch eich hunain yn agored i beth mor ofnadwy ag anfoddlonrwydd Duw, trwy gamddefnyddio cyfoeth ei drugaredd a'i râs.

Fel y byddo eich ffydd i gynhyddu, gadewch i mi eich cymhell i ddwys-fyfyrio yn yr ysgrythyrau, y rhai ydynt yn abl i'ch gwneuthur yn ddoeth i iechydwriaeth ac i'ch cynnysgaeddu at bob gweithred dda.

Holwch eich hunain, a ydych yn ymarferol yn y ffydd; a ydyw Crist ynoch, trwy ddylanwad ei efengyl, trwy yr un meddwl ag oedd ynddo ef.

Na thwyllwch eich hunain, trwy ymorphwys ar yr hyn a elwir ffydd yn unig. Ystyriwch pa gymaint sy'n ymddibynu ar eich ufydd-dod. Yr hwn a gyfodwyd i fod yn Iachawdwr, a ordeinwyd hefyd i fod eich Barnwr. A Duw a rydd i bob un yn ôl ei weithredoedd.

Ddarllenydd hynaws, nid yw ond cyfiawnder i'th hysbysu, fod ysgrifenydd y Traethawd hwn wedi benthyca ei drefn, a rhan fawr o'r sylwadau oddiwrth yr "*Essay on Faith*," gan R. Wright.—*Christian Reformer*, Cyfr. ii. tudal. 245. Cyflwynir y cyfan i'th ystyriaeth ddifrifol gyda'r gobaith nas try yn ormod o dasg i'th amynedd. I.

ATGOFFA A SYLWADAU CYFFREDINOL.—Dosbarth IX.

YN FLAENAF, YNG'HYLCH RHYDD-DID PHILOSOPHYDDOL.

1. Perffeithrwydd yn ddiau, ydyw rhydd-did philosophyddol, mor bell ag y mae yn gynnwysedig mewn gallu i ddewis lle y byddo yr annogaethau yn gydradd; ac nis gellir profi ei fod yn cynnwys gwrthddywediad. Nid ydwyf yn gallu canfod pa fodd y gellir ei wadu am y Bod Goruchaf. Hebddo ni allai ef weithredu, pe digwyddai case yr hwn nis gall neb brofi ei fod yn annichonadwy; a'r hwn nid ydyw yn wir yn ymddangos yn anhybrawf, yn yr hwn y byddai yn angenrheidiol i ddewis un allan o ddau neu ragor o ddulloedd cydradd o weithrediad, neu beidio gweithredu oll.

2. Yn y case hwn nid ydyw rhydd-did yn un rhagoriaeth foesol; nid ydyw ond gallu yn unig ac nid ydyw yn dwyn mwy o berthynas a chyfiawnder nag y mae y gallu i symud aelod. Nid ydyw Duw yn fwy cyfiawn, yn ddoethach, nag yn fwy cariadlawn oblegid ei fod yn meddu y gallu i ddewis un o ddwy, neu ragor o systems cydradd *(equal)* yn hytrach na diweithrediad hollol. Ac ni ellir profi fod rhydd-did philosophyddol mewn un amgylchiad yn gynneddf foesol.

3. A chaniatau fod rhydd-did dewisiad o bethau cydradd yn briodoledd Duw, mae yn amlwg yn canlyn, fod pob ymresymiad a ddygir i brofi fod rhydd-did, yn yr ystyr hyn, yn groes-ddywediad, neu yn arwyddo bodoliaeth heb achos priodol, yn dwyllodrus, oblegid profai yr ymresymiad hyn (os profai ddim) ammhosibilrwydd o rydd-did ym mhob câs, ac ym mhob bod; chyrhaeddai y Duwdod yn gystal a phob gweithredydd deallus arall.

4. Os caniateir fod y rhydd-did hwn o ddiwahaniaeth yn bodoli yn y Bod Goruchaf, nid ymddengys un sail resymmol i wadu y gall gael ei gyfranogi i greaduriaid deallus Duw. Ond nid ydyw y possibilrwydd hwn, os ei caniateir, yn profi mewn un modd fod y fath allu mewn gwirionedd wedi cael ei gyfrannogi i neb; llawer llai fod meddiant arno yn hanfodol i weithrediad moesol, a chyfrifoldeb.

5. Mae yr anhawsder i benderfynu y dewisiad yr hwn sydd yn cynnyddu mewn cyfartalwch i ddynesiad ymddangosiadol yr annogaethau i gyfartalwch, yn ei gwneuthur yn debygol nad ydyw y gallu i ddewis lle y mae yr annogaethau yn berffaith gydradd yn briodoledd y meddwl dynol. Ac ni ellir profi fod dewisiad mewn gwirionedd wedi cael ei wneuthur mewn un amgylchiad lle yr ydoedd yr annogaethau yn berffeith gyfartal.

6. Mae bodoliaeth rhydd-did philosophyddol mewn gweithredyddion dynol yn cael ei ffafrio gan olygiadau arwynebol am y natur ddynol; a rhydd dynion anhyddysc o'r ddadl eu barn yn gyffredinol yn fafor rhydd-did, os y cymmerir hwy yn ddifwrw, pan y byddo y cwestiwn yn cael ei gynnyg. Hyn yn iaith y philosophyddion Scotaidd ydyw yr appeliad at synwyr cyffredin; penderfyniadau yr rhwn, yn ôl eu system hwynt ydynt awdurdodol ac anffaeledig. Yn wir mae y rhan amlaf o bleidwyr rhydd-did philosophyddol yn appelio at y fact hon, fel yn profi cydwybodoldeb cynhenid o rydd-did, wedi ei osod gan y Bod Goruchaf yn y meddwl dynol; gwrthddywedyd yr rhwn ydyw mathru priodoleddau moesol Duw. Er hynny mae yr olwg arwynebol honno ar y natur ddynol, ar yr hon y mae y rheswm ymffrostiol hwn yn ymddibynnu, fel (pe byddai i'r cwestiwn gael ei ofyn gydag un cywirdeb dioddefadwy ac eglurdeb,) y byddai yr atteb braidd yn un ffurf yn fafriol i'r athrawiaeth o angenrheidrwydd.

7. Ymddengys y farn o rydd-did philosophyddol yn cael ei chefnogi gan iaith boblogaidd yr ysgrythyrau wedi cael eu deall yn llythrennol: ac felly y mae dynffurf *(anthropomorphism)*; oblegid mae yr ysgrythyr yn llafaru am lygaid, dwylaw, a chlustiau Duw a'i fod efe yn symmud o le i le. Mae yn priodoli gwyniau dynol, megis digofaint, blinder, llawenydd, edifeirwch a'r cyffelyb i'r Bod Goruchaf. Ond dangoswyd fod y gwyrthwynebiadau hyn yn pwyso yr un mor drwm ar y gosodiad yr hwn sydd yn uno rhydd-did a rhagwybodaeth, ac y mae yr atteb yr hwn sydd yn digon i'r naill, yr un mor gryf yn erbyn y llall, fel y mae yn rhaid i'r Ewyllysiwr-rhydd, cyn gallo ddefnyddio y gwrthwynebiadau hyn, wadu rhagwybodaeth Duw.

8. Mae y gallu i ddewis heb un annogaeth, neu yn groes i'r annogaeth grefaf mor amlwg groes i brofiad cyffredinol, fel ag y mae llawer o amddiffynwyr diweddar ewyllys-rydd wedi canniatau y pwynt hwn i'r angenrheidwyr, ac y maent yn gosod allan yr olwg hon ar yr athrawiaeth, megis yn gau ac ang'hywir. Mae eraill, yn fwy cysson, yn estyn llywodraeth y gallu hunan-benderfyniadol ymlaen tuag at bob gweithred ewyllysiadol. Os cyfynger rhydd-did ddewisiad rhwng pethau cyfartal, heb un annogaeth yn gorbwyso, gan addef nad oes y fath gâs byth yn ein cyfarfod, byddai y

gallu yn wagedd; ond pe gellid gwneuthur dewisiad unwaith lle y byddo yr annogaethau yn berffaith gyfartal, byddai arferiad o rydd-did yn ang'hyson pendant a sicrwydd rhagwybodaeth dwyfol; oherwydd ni allai y digwyddiad, a phob digwyddiad canlynol arall ymddybynnol arni, fod yn sicr, ac am hynny ni allai gael ei rhagweled yn sicr, nes y cymmerai y dewisiad le yn weithredol.

9. Oddi yma y mae yn canlyn bod y rheswm penaf dros angenrheidrwydd moesol, a hwnw y gwrthwynebiad nas gellir myned trosto, yn erbyn Ewyllys-rydd philosophyddaidd, mewn un gradd, na than unrhyw gyfyngiad pa bynnag, yn cyfodi oddiar ragwybodaeth Duw. Mae ewyllys-rydd a rhagwybodaeth yn sefyll mewn gelyniaeth uniongyrchol y naill i'r llall. Er mwyn bod yn gyson rhaid i bob philosophydd roddi y naill neu y llall i fynu. Maent yn hanfodol groes-ddywediadol, ac nid ydyw y gwrthddywediad yn perthyn i *ddull* y rhagwybodaeth ddwyfol, am yr hyn nid oes gennym un amgyffred, ond ei wrthrych, yr hyn yr ydym yn ei eglur amgyffred. Ni all digwyddiad fod ar yr un pryd yn sicr ac yn ansicr. Os y cymmer le yn sicr, gwrthnn ydyw dywedyd y gall o bossibl beidio dyfod i ben. Yr un peth yn gymmwys ydyw haeru y gall y pethau hyn, er yn ddirgelaidd iawn, etto fod yn alluog i gael eu cysoni ni wyddom ni pa fodd, ag y byddai i haeru, y gall tri a dau wneuthur chwech er nas gwyddom ni pa fodd. Mae gwrthddywediad yn ddrych-feddwl hunan-ddinystriol, ac ni all gael bodoliaeth sylweddol. Dyma y fath beth ydyw y drychfeddyliau o ddigwyddiad damwainiol, a rhagwybodaeth.

10. Ni byddai y rhydd-did o ddiwahaniaeth, neu y gallu i ddewis un o ddau wrthrych berffaith gyfartal, pe bai dynion wedi eu cynnysgaeddu ag ef, yn un gynneddf foesol, ac ni fyddai un berthynas rhyngddi ag ymddygiad moesol. Mae y gweithredoedd fel y bwrir, yr un mor ddewisadwy ynddynt eu hunain, ac yn gyfartal wrthrychau chwennychiad yn flaenorol i'r dewisiad yn y fath amgylchiadau. Llawer llai y gall gallu o'r fath hwn, orwedd wrth seilfaen ymddygiad moesol, a bod yn hanfodol i weithrediad moesol a disgyblaeth foesol.

CREDO ARGLWYDD BACON.

Mr. Ymofynydd—Dygwyddodd i mi wrth ddarllen y *Bible Christian* gwrdd a chredo Arglwydd Bacon am berson Crist. Dymunaf arnoch roddi lle i'r hyn a ganlyn yn eich Cyhoeddiad i'r diben i'r Cymro uniaith gael cyfle i weled crynodeb o'r anghysonderau mwyaf ag a all neb ddychmygu na meddwl.

Caeglas, ger Llanbeder. D. Davies.

"Yr wyf yn credu fod y forwyn yn fam i'r Mab; a'r Mab hwnw yn Grëwr iddi.

"Yr wyf yn credu ei fod ef wedi ei gau mewn lle cyfyngol, yr hwn oedd yn fwy na llond y Nefoedd a'r ddaear.

"Yr wyf yn credu iddo ef gael ei eni mewn amser, yr hwn oedd ac sydd o dragwyddoldeb.

"Yr wyf yn credu ei fod ef wedi bod yn faban gwan, yn cael ei gario ar freichiau, yr hwn oedd Hollalluog; ac iddo ef unwaith farw, yr hwn yn unig oedd feddianol ar fywyd ac anfarwoldeb."

HYNAFIAETHAU CYMREIG.

Rhoddir y dernyn canlynol yma ar gais amryw o gyfeillion yr *Ymofynydd*, fel enghraifft nid annheilwng o genedl-ddysg yr Hen Gymry. Y mae yn ddigon tebyg fod y rhan amlaf o'n darllenwyr heb ei weled erioed; er ei fod, os nad ydym yn camsynied, wedi ymddangos ynghŷd â phethau difyr eraill, mewn cyhoeddiad o eiddo ein cyfaill BRYCHAN. A all ryw un o'n darllenwyr ein cyfarwyddo pa fodd y mae cael copi o'r llyfryn hwnw? Rhoddir y chwedl air yn ngair fel y cyhoeddwyd yn yr Iolo MSS.

Fe wêl y darllenydd fod y dull o ymadroddi yn darawiadol iawn, a'r chwedl yn ddigrif dros ben. Nis gwyddom am un gors yn Ngheredigion sy'n atteb yn well i sefyllfa Cors Fochno, na'r gors rhwng Tregaron a Phont Rhyd-fendigaid. Ac am yr oedran a gyfrifir i'r creaduriaid cyfeiriedig, y mae yn ddigon i sylwi mai dyna oedd barn ein hynafiaid.—COL.

HENAIFION BYD.*

ERYR gynt oedd yn byw ynghoedydd Gwernabwy yn yr Alban. a chyntaf erioed oi rywiogaeth ai enw a gaed yno, a gwedi iddaw ef ai Eryres Epiliaw hyd ymhen y nawfed âch a thros hynny ym mhell a gweled ei lwyth ai Eppil yn aneirif eu nifer. ag yn gwledych holl goedydd a Chreigydd Ynys Prydain, bu farw yr hen eryres fammog. gan adael yr hen Eryr llwyd yn weddw adwerydd, ag ymddifad o gyfallai, heb neb ai cysurai nag ai cynhesai yn ei henaint, yna gan drymder bryd a meddwl a thristwch calon meddwl a orug mai goreu fyddai iddaw briodas a hen weddwes adwerydd gyfoed ai hunan. a chwedi clywed son am hen ddylluan Cwmcawlwyd ym Mhrydyn efe a gymmerth ar dyb y gallai honno ymgyfaddef ag ef a bod yn ail briawd iddaw, ond efe ni fynnai ddadryw a llwgr ar ei waed a difwynaw ei eppil o gael plant o heni, a dodi lledryw a lledach ar ei genedl. Goreu gan hynny meddai ef wrtho ei hunan imi ymholi ac ymofyn gan y rhai ydynt hŷn na mi, am oedran y ddylluan. er gwybod pa un ai amgen ei bod dros ben oedran planta; a hen gyfaill oedd iddaw hŷn nag ef ei hunan a hwnnw Hydd Rhedynfre yng Ngwent, myned attaw a orug, a gofyn oedran yr hen ddylluan ar hydd ai attebai fal hynn dywel fy nghar am cyfaill y dderwen honn a orweddaf wrthi nid yw amgen yr awr honn na hen Gelffeinyn marw heb ddail heb frig arni. eithr cof gennyf ei gweled yn fesen ar frig Brenhinbren y gelliwig honn. a thyfu yn dderwen a wnaeth a thrichanmlynedd y bydd derwen ar ei thyfiant, a chwedi hynny trichanmlynedd yn ei grym ac ar ei goreu. a gwedi hynny trichanmlynedd ar ei methiant cyn marw. ac ar ôl marw trichanmlynedd yn darfod i'r ddaear. ac y mae dros drigain or cant diweddaf wedi cerdded ar y dderwen honn. a hen y gwelais i'r ddylluan er y cof gyntaf gennyf. heb arwybod immi a wyddai am ei hoedran o'm cenedl fy hunan na golwg o iau arni nag y sydd yr awrhon. Ond y mae hen gyfaill ymy sydd hyn o lawer na myfi. Gleisiad Llynn Llifon yw hwnnw, dos atto, odid nas gwyr ef ryw gyfarwyddyd am oedran a helynt yr hen ddylluan. Myned hyd attaw a wnelai yr Eryr, a gofyn iddaw gyfarwyddyd am y ddylluan. ar Gleisiad ai attebai fal hynn, rhif y cennyniau ar gemmau sydd arnaf, ac at hynny rhif y gronynnau sydd yn fy mola y sydd arnaf o flwyddi'm oedran. ac er eitha cof imi hên gyheurath oedd y ddylluan, ac nid i neb om

---

O Lyfyr Mr. Cobb, medd Iolo Morganwg.

cyfeillion ag oedd yn ei llawn oedran pan oeddwn i yn ieuangc na chof na chlyw am ieuenctid y ddylluan nag ychwaith am ei phlanta hi. ond y cyd-ymaith immi y sydd hyn o lawer na mi, hwnnw yw mwyalch Cilgwri. dos attaw, odid nas gwyr am y ddylluan du hwnt i'r côf a'r gwybod sydd gennyf fi dos atto a gofyn iddaw. myned a wnai'r Eryr, ac a gafodd y fwyalch yn eistedd ar garregyn bychan o gallestryn caled iawn ac a ofynnes oedran a helynt y ddylluan, a'r fwyalch a'i attebai fal hynn. gwel yma bychaned y garreg fechan y tanof, nid mwy hi yr awr honn nag a gymmer bachgenyn saithmlwydd yn ei law, ag mi ai gwelais yn lwyth trychant gwedd o'r ychain mwyaf. a thraul ni bu arni erioed ond o'm gwaith i yn sychu fy mhig arni unwaith bob nos cyn myned i gysgu. ac yn taro blaen fy adain arni bob bore gwedi y desgynnwn arni o berfedd draenfrig, a thros bob cof gennyf rifedi blynyddau'm hoedran, er hynny nid adnabum i y ddylluan yn iau im barn am golwg i parth a welid arni nag yw hi y dydd heddyw, ac ni chlywais erioed gan un om ceraint y sôn lleiaf am gôf oi phlanta hi. Ond y mae un sydd hŷn o lawer na myfi a hŷn na'm tad herwydd a glywais, a hwnnw y llyffan Cors Fochno yngheredigion, dos a gofyn iddaw ag onis gwyr ef, ni wn i am neb a ŵyr. Myned a wnai'r Eryr hyd yng Nghors Fochno a chyff-wrdd a'r llyfant yno. a gofyn iddaw oedran y dylluan. a'r llyfan ai attebai. ni fwytiais i erioed amgen o fwyd na phridd y ddaear, ac ni fwyttiais i erioed hanner fy nigon. a gwel di'r bryniau mawrion y sy'n amgylch y gors honn. y maent yn sefyll ar a welais yn dir gwastad, ag nid oes y gronyn lleiaf ynddynt ond a ddaeth yn dom o'nghorph i, a bwytta cyn lleied rhag ofn darfod ar bridd y ddaear cyn fy marw. tuhwnt i bob cof i mi fy mhynyddau er yr awr am ganed, nag ychwaith er y cyntaf o beth ar gof a gwybod immi. er hynny hyn o lawer na mi yw'r ddylluan heb olwg yn y dim lleiaf o wedd ieuenctyd arni. eithr yn hên wrach lwyd, yn gweiddi Ty hwt ty hw y coed-ydd yn hirnos gauaf. yn dychrynu plant bychain ac yn torri ar hynn pob un. ac nid oes immi gof ag ni chefais i glyw er ioed am ei phlanta eithr am a welais i hen wrachiod ymhell dros ben oedran pob planta oedd yr ieuangaf o'i merched a hefyd o'i hwyron ai gorwyron. yna r Eryr a weles y galla ef ei phriodi ai chymmeryd attaw yn gywely heb ddwyn ar ei genedl na llwgr na lledryw. na lledach na llediaith. ag felly y bu. ag o garwriaeth yr hen Eryr y cafwyd gwybod pwyr hynaf o greaduriaid yn y byd, sef ydynt, Eryr Gwernabwy. a Hydd Rhedynfre a Gleisiad Llynn Llifon. a mwyalch Cil-gwri. a Llyffan Cors Fochno, a Dylluan Cwm Cawlwyd, ag nid oes namyn y Grwn Tir yn hŷn nag wynt o betha a gawsant ddechreuad yn oes y byd hwnn.

ag felly y terfyna. *Iolo MSS.*

CYMREIGWYR ANNGHYMREIGAIDD.

Syr.—Bydd yn dda gennyf gael eglurhad ar y pwngc canlynol drwy gyf-rwng eich cyhoeddiad dyddodol a gwerthfawr.

A ydyw lliosogi'r ferf yn yr ymadroddion isod yn unol âg ieithwedd y Gymraeg, neu ynte yn llygriad a ddygwyd i arferiad drwy i gyfieithwyr a gramadegwyr efelychu'r Saesonaeg?

"Y geiriau yr ychwanegir atynt *ydynt*, arth, arthod; llew, llewod; dydd, dyddiau," &c. *(yw ?)*

"Y geiriau y newidir eu llafariaid *ydynt* fel y canlyn," &c., *(sydd?)*

"Pa rai *ydynt* y llafariaid?" *(yw?)*

"Ai y rhai hyn *ydynt* yr unig gyfnewidiadau perthynol i'r rhagenwad personol?" *(yw?)*

"Pa rai *ydynt* y rhanau sylweddol?" *(yw?)*

Difynwyd y brawddegau hyn allan o ysgrifeniadau tri awdwr a gyfrifir yn enwog ymhlith gramadegwyr yr oes bresennol. Ond nis gallaf eu cymmeryd yn anffaeledig. Crefaf farn rhai o'ch gohebwyr dysgedig.

ANWYBODUS.

TRIOEDD CERDD.

(Parhâd o tudal 237).

61. Tri phrif orchest bardd; celfyddyd gyrwydded ei deall, nis gellir cynnefinach o'r symledd; godidog fyfyrdod nis gellir addasach o'r symledd, a rhagorol briodoldeb nis gellir naturiolach o'r symledd.

62. Tair urddas cerdd, gwired y peth y sonier am dano, godidocced y peth y sonier am dano, a chelfyddyd y dull y sonier am dano.

63. Tri hoffder cerdd; ei godidog newyddiant, yr hawsder o'i deall, a'i chywrain brydyddiaeth.

64. Tri chadernyd awen; athrylith, cof, a dysg.

65. Tri bonedd awen; nwyf, pwyll, a gwybodaeth.

66. Tri dyledogrwydd cerddor; grymusder athrylith, cyflawnder dysg; a glendid ei gampau.

67. Tri thrwyogaeth cerdd; trylen, trynwyf, a thrynaws.

68. Tri gloywineb cerdd; gloyw iaith, gloyw ystyr, a gloyw ddiben.

69. Tair rhagorgamp ar gerddor; cyflawn ddynodiant ar bob peth, cyflwyr fanegiant, a chyflwys ganiadaeth.

70. Tri phriodoldeb mesur; hyd y bann, dull y pennill, a phwys yr accen.

71. Tair diben cerdd; gwellhau'r deall, gwellhau'r galon, a diddanu'r meddwl a'r serch.

72. Tri naturioldeb cerdd; naturiol achos, naturiol iaith, a naturiol drefn ar ddychymmyg.

73. Tri hoywder cerdd; hoyw iaith, hoyw fyfyrdod, a hoyw drefn ar y ganiadaeth.

74. Tri chyflawnder cerdd; cyflawnder iaith, cyflawnder dychymmyg, a chyflawnder celfyddyd.

75. Tri rhyw gerddor tafod y sydd; bardd, ag arno y mae canu yn gelfydd ar fawl a doethineb, ag ofydd, ag arno y mae canu ar serch a diddanwch; a theulüwr, ag arno y mae canu er lles a diddanwch gwaith y bardd a'r ofydd*.

76. Tri chynnaliaeth awen; llwyddiant, cydnabyddiaeth, a chanmoliaeth.

77. Tripheth a ddybryn llwyddiant; priodol ymgais, hywaith ymgais, ag anghyffredin ymgais.

78. Tripheth a ddybryn cydnabyddiaeth; caredigrwydd, celfyddgarwch, a chynnefinder.

---

* Amlwg yw nad oedd Awdwr y Trioedd uchod yn deall yn iawn beth oedd gwir Ddefodau Beirdd Ynys Prydain.—I. M.

79. Tripheth a ddybryn ganmoliaeth; hygar ymddwyn, hyddysg gelfyddyd, a glan-gampau.

80. Tripheth a ddybrynant barch ag urddas; bonedd, glanfoes, a glanwisg; a da i fardd wrthynt.

81. Tri gweinidogion Awen; cof, nwyf, a dysg.

82. Tri nod awen; anghyffredin ddeall, anghyffredin ymddwyn, ag anghyffredin ymgais.

83. Tair ffynnon gwybodaeth; crebwyll, ystyriaeth, a dysgeidiaeth.

84. Tair ffynnon deall; eonder, nwyf, ag ymgais.*

—*Cyfrinach Beirdd, &c.*

DUG WELLINGTON.

(*Parhad o Tudal* 241.)

Na ryfedded ein darllenwyr wrth weled yr hyn a ganlyn o'r cofiant yn amddifad o'r alar-wisg (*mourning*) yn yr hon yr ymddangosodd y rhan flaenorol. Nid nyni sydd wedi cael achos i deimlo llai o barch nâg o'r blaen tuag at wrthddrych y cofiant. Ond y gwir am dano yw, mai gwaith yr Argraffydd ydoedd defnyddio y cyfryw nôd o alar, ac nid ein dewisiad ni. Gydâ phob parch dyledus i'r Dug, nid oeddem ni yn ystyried hyny yn gydweddol âg amcanion yr *Ymofynydd*. A phan ei canfyddwyd, yr ydoedd, dan yr amgylchiadau yn rhŷ ddiweddar i wneuthur y cyfnewidiad a ddymunem heb fyned i'r perygl o oedi'r cyhoeddiad am rai diwrnodau. Nid ydyw yn beth o bwys; teimlwn ein bod wedi dywedyd digon ar y pen. Ond i ddychwelyd:—

Ymhen naw mlynedd o wasanaeth milwraidd tra llwyddianus yn yr India, lle yr enillasai gymeradwyaeth cyffredinol a mawr glôd iddo ei hun—dychwelodd Sir Arthur Wellesley i Loegr yn mis Medi, 1805. Treiliodd y tair blynedd canlynol yn y cyflawniad o'r dyledswyddau perthynol i'r swyddi o Aelod Seneddol, *Irish Secretary*, a *Privy Councillor*; ar yr un prŷd ni adawyd ei dalentau milwraidd i fod yn segur. Ar yr un amser ag y dychwelodd Sir Arthur o'r India yr adnewyddwyd y rhyfel yn erbyn Ffrainge, gan y trydydd Cyfuniad Ewropëaidd; yn mha un yr oedd Lloegr, fel arferol, yn cymeryd ei rhan. Arni hi y gorphwysai i ddarparu llongau ac arian angenrheidiol. Ni ddisgwylid y byddai ei milwyr o nemawr ddefnydd. Er fod llyngesi Lloegr ar y pryd hwn yn ysgybo'r cefnfor, yr oedd holl borthladdoedd y cyfandir braidd, o'r Texel hyd yn Genoa, naill ai yn weithredol neu yn broffesedig, yn meddiant Napoleon. Ymhlith yr ymosodiadau aneffeithiol a wnaed gan y Cyfuniad yn erbyn yr Emprwr, digwyddodd i ran Sir Arthur Wellesley i lywio byddin, a'i glanio yn Bremen, tua diwedd 1805. Ond mor effeithiol yn y cyfamser oedd Napoleon wedi cyflawni ei waith ar y Danube, fel y darfu i'r fyddyn hon ddychwelyd i Loegr ymhen ychydig wythnosau heb daraw ergyd. Trôdd y gwasanaeth nesaf a gymerodd Sir Arthur arno, yn fwy anrhydeddus iddo. Yn 1807 anfonwyd llynges a byddin i ddarostwng Copenhagen, rhag iddi syrthio i grafangau Napoleon; ac i Sir A. yr ymddiriedwyd y prif awdurdod. Ac mor llwyddianus y bu yn ei waith yn darostwng y Daniaid ac yn y cylafaredd am ymostyngiad y ddinas, fel y derbyniodd am ei ymddygiad ddiolchgarwch y Parliament, ac y canmolir ef am y galluoedd a ddangosodd ar yr achlysur hyd yn oed gan M. Thiers.

O'r diwedd, a phan y meddylid nad oedd gan Loegr ddim i'w wneud a'i milwyr ond eu hanfon i warchod ei threfedigaethau, daeth yr amser i ben pan yr oedd ei byddin i ddangos ei gallu yn yr ymdrech mawr cyfandirol. Sir Arthur Wellesley oedd y gwr a arweiniodd y fyddin hon i fuddugoliaeth. Cawsai'r trydydd cyfuniad (*coalition*) ei chwalu i'r gwynt gan ddyrnodiau Napoleon. Yr oedd Rwssia wedi ei gorfodi neu ei denu i gyngrair

---

* Trioedd Beirdd Tir Iarll y gelwir y rhai uchod, gan Anton: Pywpi o Lwydarth.

âg ef, Yr oedd Awstria wedi ei gorchfygu. Ac yr oedd Prwssia a'i phen dan droed ei gorthrymwr. Ychwanegodd Napoleon i gymeryd meddiant o'r Ysbaen ac i osod ei frawd Joseph yn frenin arni. Llwyddodd hefyd i ddarostwng Portugal. Ond cyfododd yr Ysbaeniaid, fel un gwr, mewn gwrthryfel yn erbyn awdurdod y goresgynydd. Ac mor benderfynol a llwyddianus y bu'r gwrthryfel, fel y gorfu ar y brenin Joseph gymeryd at y traed, a bu yn dda gan Marshal Junot a'i filwyr fyned i amddiffynfa yn Lisbon, Anfonwyd am gynhorthwy i Loegr; a chydsyniwyd â'r cais. Penderfynwyd yn ddioed anfon deng mil o wŷr, oedd yn digwydd bod yn barod yn Cork, ar yr orymdaith i Portugal; ac fel hyn y dechreuodd

RHYFEL YR OR-YNYS.

(Peninsular War.)

Er bod y llywodraeth a'r wlad yn gyffredin yn cyd-ymdeimlo yn gryf o blaid gwladgarwyr yr Ysbaen a Phortugal, nid oedd nemawr o neb yn disgwyl llai nag y buasai'r milwyr anfonedig i ddychwelyd, os yn ddianaf, yn ddi-glod, fel cynt o St. Domingo, Quiberon, yr Helder a Ferrol. Ond cafwyd ei fod yn dechreu chwarae ag a drôdd i maes yn chwerw i'r Ffrancod cyn y diwedd. Trefnwyd yr orymdaith hon mewn llawer o ansicrwydd ac anwybodaeth. Ni wyddid yn iawn beth oedd cyflwr a gallu Ysbaen a Phortugal, gan gymmaint oedd twyll neu wag-ymffrost eu blaenoriaid. Ond fe wyddid fod gan lywodraethwr Ffraingc ei luoedd lawer wrth ei law. Gan Arglwydd Castlereagh yn unig yr enwyd Sir Arthur Wellesley i lywyddu'r fyddin; a gwnaethpwyd y dewisiad hwnw i raddau mawr yn ddieffaith trwy osod dau eraill, Sir. H. Burrard a Sir Hew Dalrymple, i fod uwchlaw iddo mewn awdurdod. Pa fodd bynag myued wnaeth Sir A. ar ei wasanaeth bwysig, a chyrhaeddodd Portugal o flaen ei fyddin, a thrwy hyny cafodd gyfleusdra i holi a gwybod yn well ynghylch ansawdd y wlad. Cafodd ei bod yn amhosibl braidd i gael gwybod y gwir; ond bod byddinoedd yr Ysbaen a Phortugal yn wan ac yn annhrefnus dros ben; a bod y byddinoedd Ffrengig yn feistri y ffordd y cerddent; ond bod y trigolion yn eu blino a'u rhwystro ar bob cyfleusdra ag a allent.

Glaniodd y fyddin yn nechreu Mis Awst, 1808, yn Montego Bay, oddeutu haner y ffordd rhwng Oporto a Lisbon. Yr oedd gan Marshal Junot gydâg ef yn Lisbon 25 mil o wŷr. Er fod llongau lawer o Loegr yn hwylio ar hyd goror Portugal, y rhai a gludent filwyr ynghyd ac ymborth a moddion rhyfel; ac er yr anfonasid 12 mil o wŷr dewisedig dan Sir John Moore, nid oedd gan Sir Arthur Wellesley ond 13 mil gydâg ef, a dim ond awdurdod ammodol, pan ddarfu iddo ar y 9fed o Awst ddechreu ei orymdaith gyntaf yn rhyfel yr Or-ynys. Ar yr 17eg gorchfygodd y cadfridog Ffrengig, Laborde, ar fryniau Rolica; ac yna y fuan iawn canlynodd buddugoliaeth Vimiero. Rhwystrwyd Syr Arthur, gan yr awdurdodau uwchlaw iddo, rhag medi llawn ffrwyth y fuddugoliaeth honno, yr hyn a barodd gymaint o ddiflasdod iddo fel y penderfynodd i beidio gwasanaethu danynt yn hwy. Ond bu'r fuddugoliaeth yn ddigon i ddwyn Marshal Junot i gynnyg ymadael â Phortugal, efe a'i filwyr. Wedi hyny dychwelodd Sir A. i Loegr, tua diwedd Mis Medi, gan adael ar ei ôl yn Portugal tua 30 mil o wŷr, y rhai oeddent i gyd-weithredu fel y gallent â'r gwladgarwyr Yspaenaidd.

Yn ei absenoldeb daeth cyfnewid ar sefyllfa y Ffrangcod a'u gwrthwynebwyr yn yr Or-ynys. Chwanegwyd 150 mil o wŷr at y fyddin Ffrengig oedd tu cefn i'r Ebro. Daeth Napoleon i'r maes ar ddechreu mis Tachwedd, i lywio'r fyddin yn hersonol. Torrodd trwy bob rhwystr, gan lethu ei wrthwynebwyr y ffordd y cerddai; a thua dechreu mis Rhagfyr yr oedd mewn llawn feddiant o Madrid. Wedi hyny bu'r enciliad i Corunna, a marwolaeth Sir J. Moore. Fel yma, ar ddechreu'r flwyddyn 1809, yr oedd y Ffrangcod mewn meddiant o'r Ysbaen ymron yn gwbl; a byddin Lloegr, yr hon oedd yn ddiweddar yn fuddugoliaethus yn Portugal, yn gorfod cymeryd at eu llongau.

Disgynodd Soult gydâ 30 mil o wŷr ar y Douro, ac erbyn diwedd Mawrth yr oedd mewn diogel feddiant o Oporto. Paratöai i ysgybaw Portugal o'r Saeson yn lân, trwy ymosod ar amddiffynfa Lisbon, lle yr oedd 10 mil o wŷr dan Sir J. Cradock. Ond tra yr oedd yn oedi taro'r ergyd, gan ddisgwyl clywed oddiwrth Victor a Lapisse, ail ymddangosodd

yn y Tagus y Penciwdod enwog, yr hwn oedd maes o law i gael yr oruchafiaeth, nid yn unig ar y Marshals, ond eu Hemprwr.

Yr oedd llywodraeth Lloegr wedi penderfynu anfon eilwaith fyddin gref i amddiffyn Portugal ac i adnewyddu y rhyfel: ac, er boddlonrwydd cyffredinol, appwyntiwyd Sir Arthur Wellesley yn Gadlywydd (*Commander-in-chief*). Yr oedd efe yn benderfynol o'r farn y gellid cadw Portugal yn erbyn lluoedd Ffraingc, hyd yn oed pe byddent mewn meddiant o'r Ysbaen. Seiliai ei farn ar ffeithiau adnabyddus, megis sefyllfa Portugal, yr hon sydd yn cyffinio â chymaint o dir yr Ysbaen—ac ar lan y môr, fel yr oedd yn rhoddi ffordd agored i gael ymborth a chynhorthwy, ac mewn taro, lle i gilio. Tystiodd hefyd i'r un perwyl oddiar ei brofiad ei hun, a'i wybodaeth o wynebpryd ac ansawdd y wlâd, a character y trigolion. A gwelwyd cyn pen hir fod ei farn yn gywir, fel yr oedd yn benderfynol.

Gyda'r golygiadau hyn cynghorodd lywodraeth y wlad hon i drefnu byddin Portugal i'w chyflawn nerth ac i'w gosod mewn rhan dan cyflog a swyddogion Prydeinig; ac i anfon dim llai na 30 mil o filwyr i gadw'r fyddin honno ynghyd. Wedi darparu felly, cymmerodd arno i gario ymlaen y rhyfel. A'r fath oedd ei ddyfeision, ei ymlyniad a'i fedr, fel nad ymollyngodd oll. Ac er fod 280 mil o filwyr Ffrengig yn ymnesâu i gylchynu Portugal pan y glaniodd ef yn Lisbon, a thrwy'r holl anhawsderau a'i cyfarfu, ni phallodd nes iddo ddwyn ei fyddin fechan yn orfoleddus, nid yn unig o'r Tagus i'r Ebro, ond dros y Pyrenees i Ffraingc, a dychwelyd ei hun i Loegr trwy Calais, wedi iddo gael gweled cwymp y brifddinas Ffrengig.

Bu gorfoledd mawr yn Lisbon, pan laniodd Sir Arthur Wellesley a'i fyddin yno. Dangosodd awdurdodau'r ddinas bob parodrwyd a zel i gydweithio âg ef. Trefnwyd byddin Portugal yn ddi-oed—yn 15 mil o filwyr lled dda; y rhai a osodwyd dan lywyddiad Beresford. Milwyr Lloegr oeddent tua 20 mil.

I beidio colli amser, mor gynted ag y gallodd osod yr orymdaith mewn trefn, cychwynodd o Lisbon gydâg oddeutu 24 mil i gyfarfod â Soult, yr hwn, gydag oddeutu'r un rhif o wŷr, oedd y pryd hyny yn aros yn Oporto, ar yr afon Douro. Ar y 12fed o Fai cyrhaeddodd y fyddin y lan ddeheuol o'r Douro; lle'r oedd yr afon yn 300 llâth o lêd, a'r bont wedi ei thori i lawr, a'r badau oll wedi eu symud i'r ochr draw. Ond er gwaethaf pob rhwystr, llwyddodd Sir Arthur i groesi'r afon efe a'i fyddin, yn groes i ddisgwyliad ei wrthwynebydd, ac o flaen ei wyneb. Gorfu ar y Ffrangcod ymadael o'r ddinas mewn chwidr-frys; ac er i Soult allu cadw ei fyddin ynghyd, dioddefasant yn eu henciliad agos gymaint o galedi a cholledion ag a ddioddefodd byddin Sir J. Moore, yn yr enciliad i Corunna, tua phum mis cyn hyny. Prydnawn y dydd hwnw, eisteddodd Sir Arthur Wellesley i lawr i'r giniaw ag oedd wedi ei pharotoi i Marshal Soult.

Wedi cyflawni'r orchest hon—tua dechreu Gorphenaf, cychwynodd o Oporto er mwyn ffurfio ymuniad â'r fyddin Ysbaenaidd dan Cuesta, yr hon a gynnwysai 56 mil o wŷr, pa rai, modd bynag, nis cafwyd o fawr defnydd ar faes rhyfel. Ar y 28ain o Orphenaf, heb ond ychydig neu ddim o help y Spaniards, a chydag ond 22 mil o'i eiddo ei hun, enillodd Sir Arthur frwydr Talavera, yn erbyn 56 mil o filwyr da dan lywyddiad y Brenin Joseph, ynghyd â Victor a Jourdan. Wedi'r frwydr hon dechreuodd Napoleon, mae'n debyg, newid ei lais wrth siarad am Wellesley a'r fyddin Brydeinig yn yr Or-ynys. Ac i'r diben o ddarostwng yr or-ynys yn gwbl ac yn ddioed, anfonodd luoedd newydd dros y Pyrenees, fel ag yr oedd yn awr 280 mil o filwyr da dan lywyddiad y Marshals, Victor, Ney, Soult a Massena.

Am fuddugoliaeth Talavera derchafwyd Sir Arthur Wellesley i Dy'r Arglwyddi, dan y titl, "Baron Douro, of Wellesley," a "Viscount Wellington of Talavera and of Wellington in the County of Somerset." Yn y cyfamser yr oedd llawer o ddynion gartref yn achwyn, nid heb achos, o herwydd y beichiau trymion a achosid gan draul y rhyfel a'r tywallt gwaed afreidiol. Os darfu i'r cyfryw achwyniadau gyrhaeddyd clustiau Wellington, nid ymddengys iddynt gael nemawr o effaith arno. Ond darfu iddynt gael cymaint o effaith ar y Weinyddiaeth — Tories fel ag oeddent, ag iddynt o'r herwydd esgusodi eu hunain wrth Wellington am beidio anfon iddo yr

holl gynnorthwyon a ddeisyfai ef ganddynt. Ymddengys fod y milwyr yn fynych mewn caledi o achos diffyg neu brinder ymborth neu wisgoedd priodol.

I wrthwynebu y fyddin anferthol a enwyd uchod, yr oedd gan Wellington yn awr ei 20 mil o filwyr Talavera, a chydâg adgyfnerthiaid eraill, y *brigade* hynod, yr hon dan yr enw *Light Division*, a enillodd gymaint o glod milwraidd; heblaw 30 mil o Bortugese dan Beresford; yn gwneuthur i fynu y cyfanswm o 55 mil o filwyr wrth ei law, heblaw y rhai oeddent mewn gwarchawd neu ar negesion. Yr oedd pob gobaith am gynhorthwy oddiwrth y Spaniards wedi darfod. Dan y fath amgylchiadau y dechreuodd ef ryfelgyrch 1810.

Wedi buddugoliaeth Talavera, yn rhag-weled fod ystorm yn bryweddu ar ei gyfer, ciliodd Wellington yn gyntaf i sefyllfa ar y Guadiana, a chwedi'n i'r Mondego. Yr oedd Massena (a chanddo dan ei awdurdod Ney, Regnier a Junot) yn casglu ei luoedd ynghyd gyda'r bwriad i gyflawni arch ei feistr, "i yrru y llewpard Seisnig i'r môr." Canfu Wellington y byddai rhaid iddo fod ar ei amddiffyniad o flaen llu mor anferthol, ac yn y fan dyfeisiodd y cynllun hynod o amddiffynfa Torres Vedras. Gorchymynodd ffurfio tair rhestr o amddiffynfeydd yn cyrhaedd o'r Atlantic i'r afon Tagus, ychydig uwchlaw Lisbon, yn mha rai y byddai ei fyddin mewn diogelwch a chyflawnder o angenrheidiau, ac o ba rai, pe byddai taro, yn gallent ddiangc i'w llongau, neu ynte ddyfod allan i'r maes pryd y mynent. Wedi cyflawni y gwaith hwn yn ddistaw ac anymwthgar, cymerodd Wellington ei sefyllfa yn dawel ar yr afon Coa, gan aros ymosodiad Massena. Ymhen ychydig wythnosau bu brwydr Busaco, yn yr hon y methodd y Ffrangeod yn eu hamcan, ac y collasant lawer o wŷr. Massena modd bynag, yn fuan iawn a ganlynodd ar ôl ei wrthwynebydd; ac ni freuddwydiai am ddim llai na gyrru'r Saeson o Portugal ymhen ychydig ddyddiau, pan i'w syndod a'i ofid, y cafodd ei attal yn ei gwrs gan linellau aruthrol Torres Vedras. Dywedir ei fod yn malu ewin o ddigter a siomedigaeth. Yno y bu am fis yn aros heb wneuthur dim. Yn ofni gwneud ymosod ac yn anfoddlon cilio ymaith. Yn y cyfamser, tra yr oedd byddin Wellington yn mwynhau pob cysur yn ei hamddiffynfa, yr oedd y fyddin Ffrengig yn dioddef yn dost oddiwrth glefydau a phrinder; a gorfu i Massena encilio yntau yn ei dro, a throdd yr erlidiwr yn erlidiedig. A phan gyrhaeddodd Massena gyffiniau'r Ysbaen, cafodd ei fod wedi colli haner ei wŷr. Dilynodd Wellington yn ôl Massena gan ei flino ar y ffordd, ac wedi dyfod hyd yn Almeida, penderfynodd wneuthur ymdrech i ad-enill yr amddiffynfa honno. Bu brwydr waedlyd rhwng y ddau gad-fridog, yn yr hon y bu Wellington yn fuddugol, a syrthiodd Almeida i'w law. Ac felly y terfynodd rhyfel-dymor 1810.

Wedi yr amser hyn y dechreua hanes gwarchäedigaethau (*sieges*) hynod yr Or-ynys. Nid y'm ni yn chwenych ei olrhain. Treuliwyd amser ac arian lawer yn eu cylch, ac yr oedd colled bywydau, bob ochr yn ddirfawr ofnadwy. Ond ystyrid hefyd gan y naill ochr fel y llall, fod cael meddiant o Rodrigo, Badajoz ac amddiffynfeydd cyffiniol o'r fath, yn rhoddi mantais gyfattebol i'r draul a'r colled cydfynedol.

Ionawr 19 1812 cymerodd ef Ciudad Rodrigo yn ddiarwybod braidd i Marmont, yr hwn oedd a byddin fawr yn y gymydogaeth. Ac ar y 7fed o Ebrill syrthiodd Badajoz yr un modd. Wedi hyn parotôdd Wellington y drydydd waith i fyned ymlaen o Portugal i'r Ysbaen.

Ar y 22ain o Orphenaf y bu brwydr Salamanca, yn yr hon y gorchfygwyd byddin Marmont yn lân; yr hyn a gafodd y fath effaith. fel y darfu'r Brenin Joseph unwaith etto gymeryd at y traed. A Wellington wedi iddo, trwy yr un ergyd hwn, glirio haner yr Ysbaen o'i goresgynwyr, a aeth gyda'i fyddin fuddugoliaethus i gymeryd meddiant o Madrid. Wedi aros am ychydig yn y brifddinas, gwelodd ei bod yn angenrheidiol iddo ymbarotöi at ymdrech mwy penderfynol etto. Gan adael Hill a gwarchawd yn Madrid cychwynodd gyda'r bwriad i ddarostwng amddiffynfa Burgos. Ond wedi aros am bum wythnos o flaen ei chaerau, methodd yn ei amcan. A gwelodd ei bod yn llawn bryd iddo gilio oddiyno. Yr oedd Souham a 44 mil o'r tu cefn iddo, a Soult a Joseph yn neshâu â 70 mil o wŷr ar y Tagus. Y peth a wnaeth ef oedd galw Hill a'r gwarchawd

yn ôl o Madrid, ac encilio i'w sefyllfa flaenorol ar yr Agueda, Yn yr enciliad hwn dioddefodd y milwyr galedi mawr a digalonwyd hwy yn ddirfawr.

Erbyn hyn modd bynag, cymaint oedd Wellington wedi enill ymddiried hyd yn oed y Spaniards, fel y rhoddwyd holl fyddinoedd y wlad bellach, yn y bummed flwyddyn o'r rhyfel, dan ei awdurdod yn hollol.

Ar ddechren rhyfelgyrch 1813, yr oedd amryw amgylchiadau ag oeddent yn addaw tro ffafriol i'r rhyfel. Nid oedd Wellington wedi colli nemawr o ddim a enillasai, serch yr enciliad o Burgos. Yr oedd wedi derbyn adgyfnerthiaid o Loegr, ac yr oedd y milwyr Ysbaenaidd, y fath ag oeddent, dan ei lywyddiad. Ar y llaw arall yr oedd colledion Napoleon yn y rhyfelgyrch Rwssiaidd, nid yn unig wedi lleihâu'r byddinoedd yn yr Or-ynys, ond yn ei wneuthur yn anhebygol y gallai anfon cymmorth wrth raid iddynt fel cynt. Ac yn benaf, yr oedd Wellington yn awr yn Gadlywydd ar fyddinoedd Lloegr, Portugal a'r Ysbaen. Cymaint oedd hyn yn ei galonogi, fel y dywedir iddo wrth groesi'r cyffiniau rhwng Portugal a'r Yspaen, sefyll i fynu yn ei wartholion, a chan chwifio ei het, gwaeddi "*Farwel Portugal!*"

Y Brenin Joseph, yn gweled fod Wellington yn ennill ei amddiffynfeydd un ar ôl y llall, a chwythodd i fynu gastell Burgos â phowdr. Ac yr oedd yn bresenol yn mrwydr Vittoria, i weled y gorchfygiad mwyaf penderfynol a brofodd y Ffrancod er brwydr Blenheim. Gwasgarwyd ei holl fyddin gydâ lladdfa fawr; a syrthiodd rhyw yspail anferthol i ddwylaw'r gorchfygwyr. Gan wasgu ar eu sodlau gyrrodd Wellington ei wrthwynebwyr i gelloedd y Pyrenees, a chymerodd feddiant o Sant Sebastian a Phampeluna. Anfonodd Napoleon Soult i attal ei ymgyrch; ond yn ofer. Ar y 9fed o Dachwedd, pedwar mis wedi brwydr Vittoria, y cysgodd Wellington, am y tro diweddaf yn y rhyfel, ar dir yr Or-ynys. Croeswyd y Bidassoa a'r Nivelle er gwaethaf gwrthwynebiad Soult, a gwersyllodd byddin Wellington ar dir Ffrainge. Erbyn y cymerwyd Thoulouse, yr oedd Napoleon wedi ymostwng i'w orchfygwyr, a rhoddi i fynu ei lywodraeth.

(*I'w orphen yn y nesaf.*)

Hanesion Cartrefol a Thramor.

CYFARFOD CWARTEROL UNDODIAID Y DEHEUBARTH.

Cynnaliwyd y Cyfarfod uchod dydd Iau y 30ain o Fedi, yn y Nottais, ger Porthcawl, Morganwg. Y prydnawn o'r blaen, pregethodd Mr. O. Evans, Cefn Coed-y-eymer, oddiwrth Ioan i. 45.

Boreu dydd Iau, am 11 o'r gloch, dechreuwyd yr addoliad gan Mr. James, Gellionnen. Pregethodd Mr. Briggs o Dover, yn Saisneg oddiwrth Actau xiii. 48; a Mr. T. Thomas, Pantydefaid yn Gymraeg, oddiwrth Rhuf. xii. 11. Ar ôl pregethu bu cynnadledd agored, fel mae'n arfer—Mr. T. Lloyd, gweinidog y lle yn y gadair, a'r pwngc—*Diben marwolaeth Crist.* Llefarwyd arno gan Mr. J. E. Jones, Penybont, Mr. Evans Cefn a Mr. James.

Yn y prydnawn, pregethodd Mr. James oddiwrth 1 Petr i. 23. Yr oedd y gwrandawyr yn lluosog, ac amryw wedi dyfod o bell; ac y mae lle i obeithio bod llawer un wedi cael achos i ddywedyd, "Da oedd i mi fod yno."

Cytunwyd fod y Cyfarfod nesaf i fod yn y Wig, a Mr. O. Evans, Cefn, i bregethu. Pwnc y gynnadledd yno (os ydym yn cofio'n iawn) fydd "Ffydd gadwedigol."

"Y WASG."

Un o destunau yr Eisteddfod ddiweddar yn Nghasnewydd-ar-Wysg oedd, "Y Traeth awd goreu yn Saesonaeg, ar y Wasg, fel moddion i oleuo cenedl;" Gwobr £5. Barnwyd y wobr i Mr. W Morris, Argraffydd, *Stamp Office*, Abertawy; ynghyd â chanmoliaeth uchel. Y mae'n dda genym glywed fod Mr. M. yn bwriadu cyhoeddi ei Draethawd ar fyr iawn.

Y SENEDD.

Bydd y Senedd Ymerodrawl i ymgyfarfod ar y 4ydd o Dachwedd.

CLADDEDIGAETH Y DUG.

Ni chaniateir lle i ddywedyd rhagor nag ei fod wedi ei hysbysu, y bydd y gladdedigaeth i gymeryd lle rhwng y 17 a'r 19eg o Dach.; a chydâ'r fath rwysg mawreddog, nas bu mo'i fath o'r blaen mewn côf na hanes.

Hyderwn y gellir rhoddi byr-hanes o hono yn y rhifyn nesaf.

Y CYFANDIR.

Y mae rhyddid, gwladol a chrefyddol, yn isel ei chyflwr, ar hyn o bryd, drwy yr oll o'r Cyfandir. Wedi ei bradychu gan dwyllgyfeillion a'i tharaw â'r cleddyf, bydd yn hir ond odid, cyn gwella o'i chlwyfau. Diffyg egwyddor a chydymddiried fu'r achos penaf o'r aflwyddiant. Y mae yn awr yn dysgu ei gwers. Y tro nesaf, gobeithir, y gwelir ei bod yn deall ei swydd yn well. Yn y cyfamser y mae'r Eglwys Babyddol yn gyrru ei dylanwad caethiwus hyd eithaf ei gallu. Yn *Florence*, yn ddiweddar, condemniwyd dau dyn, gwr a gwraig o'r enw Madiai, i garchariad dros bedair blynedd am y trosedd enbydus o ddarllen y Bibl a dangos arwyddion oreill o'u hanghydffurfiad â'r Grefydd Babaidd.

Am Ffraingc, gellir disgwyl clywed cyn diwedd y flwyddyn hon, fod yno Ymerawdwr, naill ai dan y teitl Napoleon III; neu Louis Napoleon I. Nid yw y newyddion o Ffraingc am y misoedd diweddaf, yn cynnwys dim arall braidd ond parotöadau tuag at ddwyn oddiamgylch yr Ymerodraeth.

Marwolaethau.

Hydref 19, yn y Wig, Morganwg, yn 22ain oed, Mr Robert Lloyd, ail fab y parch T. Lloyd, Nottais. Yr oedd yn ddyn ieuangc caredig, diwyd a deallus; ac y mae hiraeth trwm ar ei ôl. Torrwyd ef i lawr yn mlodau ei ddyddiau, pan oedd disgwyliadau ei berthynasau a'i gydnabod yn dra gobeithiol am dano. Dioddefodd "gystudd byr," ond nid "ysgafn," yn dawel ac amyneddgar. Ac yr y'm yn hyderus nad yw ei briod a'i berthynasau anwyl yn "galaru fel rhai heb obaith." Dyma rybydd arall i ni fod yn barod; canys ni wyddom na'r dydd na'r awr y'n gwysir i ymadael o'r fuchedd hon.

Hydref 19, yn Nhrefnewydd y Nottais, yn 78 mlwydd oed, Mr. Rees Thomas, gynt o'r Gelly Faelog, Ystrad Dyfodwg. Adwaenid ef gan lawer, ymhell ac yn agos, fel dyn tawel, diwyd ac onest. Yr oedd am flynyddau lawer wedi bod yn aelod cymeradwy gydâ'r Bedyddwyr Calfinaidd Ond rhai blynyddau cyn ei farw daeth i gofleidio Undodiaeth, fel gwirionedd Cristnogol, a gwir sail ein cysur a'n gobaith yn Nuw.

Barddoniaeth.

PENNILLION AR GARIAD.

O, mor hoff yw gweled Cariad
Gan bob un yn cael derbyniad;
Lle na byddo ef yn trigo,
Nid oes ond anghysur yno.

Cariad ydyw coron heddwch,
Cadwyn auraidd cyfeillgarwch;
Afon bur o ddwfr bywiol,
Hanfod glân y Duw tragwyddol.

Pe buasai e'n lletya,
'E ddarfyddai twrf rhyfela;
Yn lle rhuad y magnelau,
Gwir ddystawrwydd a deyrnasai.

Ac yn lle pob erledigaeth,
Sydd yn bod trwy'r greadigaeth;
Buasai pawb yn byw'n unfrydol,
Yn blant ufudd i'w Tad Nefol.

O, mor ddedwydd yw yr anwedd,
Lle bo hwn yn gwneud ei orsedd;
Nid oes yno frad na chynhen,
Gan na fag efe genfigen.

Mae y bwthyn bach lle byddo
Cariad a thangnefedd yno,
'N well na'r palas goreuredig,
A chasineb yr anniddig.

Pe buaswn yn meddianu
Aur ac arian dirifedi;
Tlawd fuaswn yn y diwedd,
Heb fod hwn yn llywio'm buchedd.

Mwyn yr haf yw min yr afon,
Mwyn yw llwyni'r gerddi gwyrddion;
Ond i minau, mwy dymunol,
Yw gwar isel gariad grasol.

Gwell yw pryd o ddail lle byddo
Hwn a'i wenau yn preswylio,
Na chael profi pêr ddanteithion,
Heb ei fod ynghiliau'r galon.

'E fynega yr Apostol
Am dri pheth yn't dra rhagorol—
Ffydd a gobaith, cariad puraf,
Cariad, meddai ef, yw'r mwyaf.

Nid yw cariad yn ymffrostio,
Cenfigenu nac ymchwyddo;
Ond y mae yn gymwynasgar,
Dyna un o'i nodau hawddgar.

Gwnawn adgofio am y person,
Syrthiodd unwaith ymysg lladron;
Gan ddolefain mewn mawr dristwch,
Ar ei ddwyn i ddiogelwch.

Rhyw offeiriad a ddaeth heibio,
Ond ni roddodd gymhorth iddo,
Felly'r Lefiad, yntau hefyd,
A aeth heibio yr un ffunud.

Ond yn sydyn ar ol hyny,
Rhyw Samaritan a'i canfu;
Hwn a aeth i'w gynhorthwyo,
Ac a roddodd nodded iddo.

Gwelwn pa un caredicaf,
Ydoedd neu'r Rabbiniaid blaenaf;
Gwelwn hefyd yn ddiymwad,
P'un a feddai gywir gariad

Y Samaritan a welodd
Mai ei anwyl frawd a syrthiodd,
Ar ei daith, trwy'r byd presenol,
Fel ei hun i fyd dyfodol.

Brodyr, cofiwn, ydym ninau,
Sydd yn teithio yr un siwrnau;
Ac fel brodyr dylem hefyd,
Garu ein gilydd ar bob cnyd.

Dyma y gorchymyn cyntaf,
A fynegodd y Goruchaf;
Sef ei garu Ef o'r galon,
Yna caru ein cym'dogion.

Duw anfonodd o'i fawr gariad,
Iesu Grist i bawb yn Geidwad;
Idd eu galw i ddiogelwch,
O drueni a thywyllwch.

Iesu mwyn a ddioddefodd,
Ddirmyg am yr hyn a draethodd;
Ac o'i gariad, 'E fu farw,
Dros y gwir, O, benyd chwerw!

Ymwrolwn ninau'n wrol,
I'w feddianu bresenol;
Rhag bod eto yn galaru,
Pan fo angau yn dynesu.

Deued angau pryd y delo,
At y dedwydd un a'i meddo;
Mae yn marw'n lân ei galon,
Medda heddwch Duw a dynion.

Nid yw hwn a'i saethau sythion,
Namyn galwad hoff i'r Cristion;
Oddiwrth pob chwerw brofiad,
At ei Dad sy'n fôr o gariad.

Ond y sawl a dreulio'i ddyddiau,
Heb gael prawf o'i felusderau;
Yr un modd ag yn bresenol,
Y bydd ef mewn byd dyfodol.

O'th gysgadrwydd dos, ystyria,
Mor anaddas wyt fel yna,
I fwynhau yr ardal hono—
Lle mae cariad yn gorlifo.

Os mewn dig y myni dreulio,
Dyddiau 'th oes heb feddu arno;
Uffern sydd i'w gwel'd yn eglur,
Yn dy fynwes, O, bechadur.

Y mae llawer yn proffesu,
Eu bod yn ddilynwir Iesu;
Os edrychir ar eu rhodiad,
Nid oes ganddynt fawr o gariad.

Beth yw'r rhagfarn a'r ymryson,
Sydd yn ffynu rhwng Crist'nogion?
Y mae llawer yn rhyfela,
Yn rhyfeddol wrth grefydda.

A ddywedodd Iesu tirion,
Unwaith wrth ei hoff ddisgyblion;
Fod y rhai'n yn angenrheidiol,
Cyn meddianu anian Nefol?

Dyma draethodd ar ei bregeth—
"Cerwch bawb yn ddiwahaniaeth,
Ie, cerwch eich gelynion,
Yr un fath a'ch prif gyfeillion."

O gwrandawwn ar ei eiriau,
A dilynwn ol ei gamrau;
Cadwn gyfraith ein Hanwyldad,
Ei chyflawnder ydyw cariad.

Ofer yw ein helusenau,
Ofer hefyd ein gweddiau;
Os na chant eu llwyr gyflawni
O wir gariad a daioni.

Dyma rwymyn cryf perffeithrwydd;
Hwn a'n clymo bawb yn ebrwydd;
Fel y byddom yn un teulu,
Ac aelodau o gorph Iesu.

Y mae'r cyfnod yn dynesu,
Pan bydd cariad yn teyrnasu,
Dros y ddaear, fel mae'r dyfroedd,
Yn gordoi dyfr-fanau'r môroedd.

Henffych i'r gwynfydig amser,
Pan y lledo ef ei faner;
Nes y gyro a'i belydrau,
Gàs a digter o'n gororau.

Yna bydd yr holl deyrnasoedd,
'Nawr y' meddiant aer y Nefoedd;
Ar ei ben bydd coron Nefol,
Fe deyrnasa yn dragwyddol.

Bydd llumanau fry yn chwyfio,
Cariad arnynt yn dysglaerio;
Pawb yn ffyddlon weision Iesu—
Teulu'r Nef yn llawenychu.

Henffych i'r gwynfydig amser,
Pan na bydd na llid na thrawsder;
Ni â Christ a Duw mewn undeb,
Dros ddiderfyn dragwyddoldeb.

Ceredigion. D. T.

AT EIN GOHEBWYR.—*Derbyniwyd—J. Jones; W. M. Anwybodus, ac Ifor Cwm Gwys.*
IFOR.—*Y Cofiant sydd ry faith ar y pryd hwn; eich Awenyddiaeth, yn dra derbyniol.*

PEN-Y-BONT, ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.